

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,  
Llywodraeth Leol a Chymunedau

## **Bil yr Undebau Llafur (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor**

---

Ebrill 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau](http://www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddCymunedau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddCymunedau@cynulliad.cymru)**

Twitter: **[@SeneddCLILCh](https://twitter.com/SeneddCLILCh)**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cydraddoldeb,  
Llywodraeth Leol a Chymunedau

## **Bil yr Undebau Llafur (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor**

---

Ebrill 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

# Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 28 Mehefin i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisiau, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): llywodraeth leol; tai; adfywio, cydlyniant a diogelwch cymunedol; trechu tloidi; cyfle cyfartal a hawliau dynol.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**John Griffiths AC (Cadeirydd)**

Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Gareth Bennett AC**

UKIP Cymru  
Canol De Cymru



**Janet Finch-Saunders AC**

Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy



**Siân Gwenllïan AC**

Plaid Cymru  
Arfon



**Bethan Jenkins AC**

Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Rhianon Passmore AC**

Llafur Cymru  
Islwyn



**Jenny Rathbone AC**

Llafur Cymru  
Canol Caerdydd



**Joyce Watson AC**

Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

---

# Contents

01. Cyflwyniad .....	5
02. Cefndir.....	7
03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	10
04. Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus .....	18
05. Datgymhwyso'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau Cymreig datganoledig.....	26
06. Datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar 'wasanaethau cyhoeddus pwysig' .....	37
07. Gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol .....	46



# 01. Cyflwyniad

1. Ar 16 Ionawr 2017 cyflwynodd Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet) **Fil yr Undebau Llafur (Cymru)** ('Y Bil') a **Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd ag ef. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad ar y Bil** yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr 2017.

2. Cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ('y Pwyllgor'), er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 7 Ebrill 2017.

## Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer y gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

1. egwyddorion cyffredinol Bil yr Undebau Llafur (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n barhaus ac yn effeithiol drwy ddatgymhwyso rhai o ddarpariaethau Deddf yr Undebau Llafur 2016 Llywodraeth y DU, fel y maent yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig. Dyma'r darpariaethau sydd i gael eu datgymhwyso:
  - y trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.
  - pwerau i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster ynghyd â gosod gofynion ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â thalu am amser cyfleuster, a
  - chyfyngiadau ar gyflogwyr mewn cysylltiad â didynnu taliad tanysgrifiadau undeb o gyflogau;
2. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi darpariaethau'r Bil ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
3. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil; a
4. goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

## Dull y Pwyllgor o weithredu

4. Cynhaliodd y Pwyllgor **ymgynghoriad cyhoeddus** i lywio ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Daeth 19 ymateb i law ac fe'u cyhoeddwyd ar wefan y Cynulliad. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae **rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar** wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

5. Yn ogystal, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda chynrychiolwyr Cymdeithasau Rhieni ac Athrawon a chynrychiolwyr o Gynghorau Iechyd Cymuned.

6. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

**7.** Cytunodd saith o'r wyth o Aelodau'r Pwyllgor ar yr adroddiad a'i fod yn cynrychioli eu barn ar y dystiolaeth a ystyriwyd ganddynt a'r argymhelliad a wnaethpwyd ganddynt. Nid oedd Janet Finch-Saunders AC yn cytuno â'r adroddiad.

### **Trafodaethau pwyllgorau eraill ar y Bil**

**8.** Clywodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ar y Bil ar 6 Mawrth. Bydd yn cyflwyno adroddiad ar ei gasgliadau erbyn 7 Ebrill 2017.

**9.** Ysgrifennodd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad at Ysgrifennydd y Cabinet ar oblygiadau ariannol y Bil ar 3 Mawrth 2017<sup>1</sup>, a nododd ymateb Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl hynny<sup>2</sup>.

---

<sup>1</sup> Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, 3 Mawrth 2017

<sup>2</sup> Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 17 Mawrth 2017



## 02. Cefndir

### Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992

**10.** Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (Deddf 1992) yn bennaf yw'r ddeddfwriaeth bresennol ar undebau llafur. Mae Deddf 1992 yn diffinio undebau llafur, yn amlinellu'r fframwaith (gan gynnwys hawliau a dyletswyddau cyfreithiol) sy'n rheoli'r ffordd y caniateir iddynt weithredu, gan gynnwys o dan ba amgylchiadau y caniateir gweithredu diwydiannol. Mae hefyd yn cynnwys darpariaethau ar agweddau gweithredol yr undebau llafur a'r berthynas â chyflogwyr, fel didynnu taliadau tanysgrifio undebau o gyflogau gweithwyr, amser cyfleuster a phleidleisiau. Caiff y darpariaethau hyn eu trafod yn fanylach isod.

### Darpariaeth sy'n ymwneud â didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau

**11.** Mae aelodau undeb yn talu eu tanysgrifiad mewn un o ddwy ffordd; naill ai'n uniongyrchol i'w hundeb llafur, neu drwy eu cyflogwr a fydd yn tynnu tanysgrifiadau'r undeb o gyflogau eu gweithwyr ac yn trosglwyddo'r taliad yn uniongyrchol i'r undeb berthnasol. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'check-off'.

**12.** Cytundeb yw trefniant didynnu ('check-off') rhwng cyflogwyr ac undebau, ac mae'r trefniadau y cytunwyd arnynt yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth y gweithiwr.

**13.** Mae Adran 68 o Ddeddf 1992 yn nodi'r gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caiff cyflogwr didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflog gweithiwr. Dim ond pan fydd y cyflogai wedi cydsynio'n ysgrifenedig i'r cyflogwr wneud didyniadau, a phan nad yw wedi hysbysu ei gyflogwr yn ysgrifenedig ei fod yn tynnu ei gydsyniad yn ôl, y caniateir i'r cyflogwr wneud didyniadau o'r fath.

### Darpariaeth sy'n ymwneud ag amser cyfleuster

**14.** Amser cyfleuster a chyfleusterau'r undebau llafur yw'r amser a'r adnoddau y bydd undebau yn eu negodi â chyflogwyr fel eu bod yn gallu cynrychioli aelodau yn unigol ac ar y cyd mewn trafodaethau. Mae Deddf 1992 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer amser cyfleuster:

- rhaid i weithwyr sy'n gynrychiolwyr undeb llafur annibynnol a gydnabyddir gan eu cyflogwr gael caniatâd i gymryd amser rhesymol i ffwrdd yn ystod oriau gwaith i gyflawni dyletswyddau penodol sy'n ymwneud â'r undeb llafur (adran 168);
- caiff gweithwyr sy'n aelodau o undeb llafur annibynnol a gydnabyddir gan eu cyflogwr gymryd amser rhesymol i ffwrdd i gyflawni dyletswyddau Cynrychiolydd Dysgu yr Undeb ar yr amod fod yr undeb wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r cyflogwr fod y gweithiwr yn gynrychiolydd dysgu yr undeb llafur a bod yr amod hyfforddi yn cael ei bodloni (adran 168A);
- rhaid i gyflogwr sy'n caniatáu i gynrychiolwyr undeb gymryd amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau'r undeb llafur dalu'r gweithwyr am yr amser a gymerwyd ganddynt (adran 169); a
- rhaid i'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) gyhoeddi canllawiau ar yr amser i ffwrdd a ganiateir gan gyflogwr i swyddog undeb llafur gyflawni ei ddyletswyddau (adran 169(3)). Mae'r cyfarwyddyd hwn ar ffurf Cod Ymarfer 3: Amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau a gweithgareddau undeb llafur, a ddiwygiwyd ym mis Ionawr 2010.

## Darpariaethau sy'n ymwneud â phleidleisiau

**15.** Mae adran 226 o Ddeddf 1992 yn pennu gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir gweithredu diwydiannol, gan gynnwys gofyniad bod yn rhaid cynnal pleidlais ymhlith aelodau'r undeb. Nid oes lleiafswm gofynnol o ran y nifer sy'n troi allan i bleidleisio, ond rhaid i o leiaf 50 y cant (mwyafrif sym) o'r rhai sy'n pleidleisio fwrw eu pleidlais o blaid gweithredu diwydiannol.

## Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU (Deddf yr Undebau Llafur 2016 erbyn hyn)

**16.** Cyflwynwyd Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU (Bil y DU) yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Gorffennaf 2015. Roedd yn ceisio diwygio Deddf 1992, i ddiwygio cyfraith undebau llafur mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cyflwyno trothwyon pleidleisio newydd ar gyfer gweithredu diwydiannol, gwneud darpariaethau sy'n ymwneud ag amser cyfleuster ar gyfer swyddogion undebau llafur yn y sector cyhoeddus, a chyfyngu ar ddiwynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus.

**17.** Yn y Nodiadau Esboniadol ar Fil y DU, dywedodd Llywodraeth y DU fel a ganlyn:

“The provisions of the Act extend to Great Britain. In the view of the UK Government, the matters to which the provisions of the Act relate are not within the legislative competence of the Scottish Parliament or the National Assembly for Wales; accordingly no legislative consent motions are required.”<sup>3</sup>

**18.** Ym mis Medi 2015, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru **ddatganiad ysgrifenedig ar Fil y DU** gan gyfeirio at y Bil fel un sydd â'r potensial i “achosi niwed sylweddol i wead cymdeithasol ac economaidd y DU”.

**19.** Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, dadleuodd Llywodraeth Cymru y dylai cymalau penodol ym Mil y DU fod yn ddarostyngedig i gydsyniad y Cynulliad am eu bod yn ymwneud â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Gosododd **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil y DU** ym mis Tachwedd 2015. Wrth wneud hynny, roedd yn argymhell bod y Cynulliad yn peidio â rhoi ei gydsyniad.

**20.** Trafododd y Pedwerydd Cynulliad y **Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol** ar 26 Ionawr 2016 a phleidleisiodd i wrthod rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil y DU. Er hyn, glynodd Llywodraeth y DU at ei safbwynt nad oedd y darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, ac anwybyddodd benderfyniad y Cynulliad i wrthod rhoi cydsyniad.

**21.** Cafodd Bil y DU Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2016. Daeth yr adrannau y mae'r Cynulliad yn gwrthod caniatâd iddynt i rym ar 1 Mawrth 2017. Mae'r rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' at ddibenion cymhwyso'r gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant yn awr mewn grym yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi datgan na fydd y rheoliadau mewn perthynas ag amser cyfleuster a didynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae Llywodraeth y DU wedi adrodd y bydd yn cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig unwaith y bydd darpariaethau 'cadw pwerau'n ôl' Deddf Cymru 2017 yn dod i rym.

**22.** Roedd manifesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2016 yn cynnwys ymrwymiad i wrthdroi effaith adrannau perthnasol o Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 (“Deddf 2016”). Ar ddechrau'r

<sup>3</sup> **Nodiadau Esboniadol ar Fil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU**, a gyhoeddwyd Gorffennaf 2015

Pumed Cynulliad, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru, mewn datganiad am raglen deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, y byddai deddfwriaeth yn cael ei dwyn ymlaen i roi effaith i'r ymrwymiad hwnnw.

## Bil yr Undebau Llafur (Cymru) Llywodraeth Cymru

**23.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil yr Undebau Llafur (Cymru) ('y Bil'), mae cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad i wneud darpariaethau'r Bil yn deillio o bynciau o dan bob un o'r 21 o benawdau yn Atodlen 7 i'r graddau y maent yn ymwneud â darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**24.** Mae'r rhestr o bynciau yn helaeth ac felly ni ailadroddir hi yma. Gellir ei gweld ar dudalennau 5 i 13 o'r Memorandwm Esboniadol.

**25.** Ar 16 Ionawr 2017 gosododd y Llywydd ddatganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol gerbron y Cynulliad. Yn dilyn hynny, ysgrifennodd y Llywydd at y Pwyllgor ar y mater o gymhwysedd a dywedodd, tra yn ei barn hi y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd, "nid oedd [ei] phenderfyniad yn un rhwydd". Aeth yn ei blaen i ddweud:

---

"Fe'm cynghorwyd fod dadleuon dilys y gellid dyfarnu fod rhai neu holl ddarpariaethau gweithredol y Bil y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad, pe byddai'r Bil yn cael ei gyfeirio at y Goruchaf Lys o dan adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, neu'n cael ei herio ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r penderfyniad yr wyf wedi'i wneud, felly, yn seiliedig ar ddadl agos iawn."<sup>4</sup>

---

**26.** Roedd y llythyr yn crynhoi'r materion a ystyriwyd gan y Llywydd wrth wneud ei phenderfyniad ar gymhwysedd.

## Deddf Cymru 2017

**27.** Bydd Deddf Cymru 2017, pan fydd mewn grym, yn newid setliad datganoli Cymru o fodel 'rhoi pwerau' i fodel 'cadw pwerau'n ôl'. Yn achos model cadw pwerau'n ôl, caiff y Cynulliad basio deddfwriaeth cyn belled nad yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl (h.y. mater sydd wedi'i gadw'n ôl ar gyfer Senedd y DU) a'i fod yn cydymffurfio â gofynion statudol eraill, fel cysondeb â deddfwriaeth yr UE a deddfwriaeth hawliau dynol.

**28.** Bydd Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol (gan gynnwys pwnc Deddf 1992) yn fater a gedwir yn ôl pan fydd y rhannau perthnasol o Ddeddf Cymru 2017 yn dod i rym (rhagwelir y bydd hyn ym mis Ebrill 2018), ac felly, yn gyffredinol y byddant y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

---

<sup>4</sup> Llythyr gan y Llywydd at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, dyddiedig 16 Ionawr 2017

## 03. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth

### Cefndir

**29.** Mae'r Bil yn ceisio datgymhwyso darpariaethau penodol o Ddeddf 2016 mewn perthynas ag 'awdurdodau Cymreig datganoledig'.<sup>5</sup> Mae'r darpariaethau fel a ganlyn:

- cyfyngiadau ar gyflogwyr mewn cysylltiad â didynnu taliad tanysgrifiadau undeb o gyflogau;
- pwerau i'w gwneud yn ofynnol i gyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster ynghyd â gosod gofynion ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus mewn cysylltiad â thalu am amser cyfleuster, a
- y trothwy pleidleisio o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig.

**30.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r darpariaethau uchod "yn cael effaith andwyol ar ddull Llywodraeth Cymru o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru".<sup>6</sup>

**31.** Mae'n ymhelaethu ar hyn, gan ddweud:

---

"Gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol y mae Llywodraeth Cymru wrth reoli staff y sector cyhoeddus ac ymdrin â chysylltiadau diwydiannol yn y gwasanaethau cyhoeddus.

[...]

"Mae Trade Union Act y DU yn cyfyngu ar weithgareddau undebau llafur ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod, wrth wneud hynny, yn tanseilio'r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yma yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd Deddf y DU, pan ddaw i rym, yn rhannu cymdeithas; yn arwain at fwy o wrthdaro yn y berthynas rhwng cyflogwyr a gweithwyr, ac y bydd yn tanseilio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac economi Cymru yn hytrach na diogelu gwasanaethau cyhoeddus fel yr haerwyd gan Lywodraeth y DU wrth i'r Trade Union Act fynd ar ei thaith drwy'r Senedd."<sup>7</sup>

---

**32.** Yn olaf, mae'n nodi bod y Bil "yn atgyfnerthu'r broses o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yng Nghymru, ac mae hefyd yn cryfhau'r cyfraniad y mae hynny'n ei wneud o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n gwneud hynny drwy gadw trefniant sydd wedi hen ennill ei blwyf gyda'r sector cyhoeddus ac sydd, dros amser, wedi bod yn fodd i gynnal perthynas gadarnhaol rhwng

---

<sup>5</sup> Mae adran 1(5) yn diffinio'r 'awdurdodau Cymreig datganoledig' hynny y mae'r Bil yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at y diffiniad o 'devolved Welsh authority' yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (a fewnosodir gan adran 4 o Fil Cymru). Yn yr adran honno, ystyr 'devolved Welsh authority' yw awdurdod cyhoeddus a bennir yn Atodlen 9A o'r Ddeddf neu sy'n arfer swyddogaethau (a) sydd yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig a (b) sy'n gyfan gwbl neu yn bennaf yn swyddogaethau nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl.

<sup>6</sup> Memorandwm Esboniadol ar Fil yr Undebau Llafur (Cymru), Ionawr 2017, para 1.1. Bydd cyfeiriadau pellach at y Memorandwm Esboniadol fel yr 'EM' (yn y fersiwn Saesneg).

<sup>7</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.7-3.9

cyflogwyr a chyflogeion, gan gynnwys cydnabod hawliau'r undebau llafur i drefnu gweithredu diwydiannol ac i weithredu'n ddiwydiannol mewn amgylchiadau eithafol".<sup>8</sup>

### Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

---

**33.** Nodwn y gefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer egwyddorion cyffredinol y Bil. Daeth y gefnogaeth, nid yn unig gan y rhai sy'n cynrychioli undebau llafur, ond gan rai sy'n cynrychioli cymdeithasau proffesiynol a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus.

**34.** Roedd yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn gwrthwynebu Deddf 2016 Llywodraeth y DU yn bendant ynghyd â'r darpariaethau yn y Ddeddf y mae'r Bil yn ceisio eu datgymhwyso. Roedd consensws bod dull presennol Llywodraeth Cymru o ran cysylltiadau diwydiannol, yn seiliedig ar y model partneriaeth gymdeithasol, yn gweithio'n dda ac, o ystyried hyn, nid oedd angen dim newidiadau i'r trefniadau deddfwriaethol presennol.<sup>9</sup>

**35.** Yn ogystal, o ran egwyddor, roedd cynrychiolwyr o undebau llafur hefyd yn gwrthwynebu'r darpariaethau yn Neddf 2016, ar y sail eu bod yn ymgais uniongyrchol, gan Lywodraeth y DU i ansefydlogi'r undebau llafur. Yn ôl y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN), mae Deddf 2016 yn ddiangen a llym.<sup>10</sup> Disgrifiodd Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol (SWU) hi fel, ar y gorau, yn ymrannol,<sup>11</sup> tra bod Cymdeithas y Radiograffwyr (SoR) yn honni ei bod yn wrthgynhyrchol a dialgar.<sup>12</sup>

### Effeithiau'r darpariaethau yn Neddf 2016

**36.** Yn ôl yr ymatebwyr, byddai'r darpariaethau yn Neddf 2016:

- yn tanseilio hawliau gweithwyr, gan gynnwys yr hawl i dynnu llafur yn ôl ar adegau o anghydfod diwydiannol difrifol a dilys;
- yn tanseilio cydbwysedd yn y berthynas rhwng partneriaid cymdeithasol;
- yn niweidio cysylltiadau diwydiannol yng Nghymru, sydd, ar y cyfan, yn gweithredu'n effeithiol i ddatrys anghydfodau;
- methu â chydabod rôl undebau llafur wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus;
- ceisio cwtogi ar rôl yr undebau llafur ac yn cyflwyno rhwystrau i'w gweinyddu a'u gweithredu'n effeithiol.

**37.** Credai ymatebwyr y byddai'r uchod yn amharu ar y dull partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru ac yn effeithio ar barhad y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. Fel y cyfryw, roedd consensws bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn datgymhwyso'r darpariaethau yn Neddf 2016 i liniaru hyn.

---

<sup>8</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.10

<sup>9</sup> Yn y cyd-destun hwn, "trefniadau deddfwriaethol presennol" yw'r trefniadau hynny sydd ar waith cyn i ddarpariaethau perthnasol Deddf yr Undebau Llafur 2016 ddod i rym.

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 02

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 11

## Y model partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru

**38.** Wrth egluro eu cefnogaeth i'r Bil, pwysleisiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr bwysigrwydd y model partneriaeth gymdeithasol wrth reoli cysylltiadau diwydiannol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nododd rhai ymatebwyr y Cyngor Partneriaeth y Gweithlu<sup>13</sup> fel enghraifft o waith partneriaeth adeiladol.

**39.** Dywedodd llawer o ymatebwyr, er nad oedd heb ddim anawsterau, bod y model partneriaeth gymdeithasol yn gweithio'n effeithiol a'i fod wedi helpu i oresgyn rhai heriau sylweddol y mae'r sector cyhoeddus wedi'u hwynebu yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf.

**40.** Wrth egluro sut y mae'r model partneriaeth gymdeithasol yn gweithredu yng Nghymru, dywedodd TUC Cymru:

---

“Across all elements of partnership, mutual respect and trust is essential. Difficult conversations are common and disagreement is addressed openly and directly. Trade unions and employers continue to invest in this grown up partnership approach because the challenges facing our public services are huge and the workforce implications of these challenges are significant. While each partner brings their own priorities and perspective there is a shared commitment to our public service and a shared objective of delivering excellent services and fair employment. All partners also explicitly recognise that negotiated settlement of contested areas prevents the development of industrial disputes with all the consequences that would have for service disruption and income.”<sup>14</sup>

---

**41.** Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), roedd partneriaeth gymdeithasol yn un o lwyddiannau datganoli. Roedd yn datgan:

---

“The WLGA has supported and embraced the concept of social partnership which has helped steer local government through severe financial difficulties...we firmly recognise as employers that engaging with the workforce through recognised trade unions played a significant part in ensuring that service continuity has been at the heart of some difficult decisions and fulfilling the Welsh Government's strategic aim of having citizen-centred services.”<sup>15</sup>

---

**42.** Wrth roi sylwadau yn benodol ar weithrediad Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, adroddodd UNSAIN ei fod yn hyrwyddo deialog a thrafod cynhyrchiol mewn fforwm sy'n cydnabod pob rhanddeiliad yn gyfartal a'i fod heb amheuaeth, wedi bod o fudd i bawb sy'n gysylltiedig.<sup>16</sup>

**43.** Eglurodd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru, bod gweithio mewn partneriaeth rhwng sefydliadau cyflogwyr ac undebau llafur, yn gyffredinol, yn gweithio'n dda yn y GIG yng Nghymru. Roedd wedi cefnogi datblygiad datrysiadau effeithiol a fu o fudd i'r ddwy ochr o ran

---

<sup>13</sup> Cyngor Partneriaeth y Gweithlu sy'n dwyn yr undebau llafur, cyflogwyr y sector cyhoeddus a Llywodraeth Cymru ynghyd. Caiff ei gadeirio fel arall gan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol.

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>15</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>16</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

nifer o heriau sylweddol y mae'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â hwy.<sup>17</sup> Roedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cytuno â'r farn hon.<sup>18</sup>

**44.** Mynegwyd barn debyg gan y Coleg Nyrsio Brenhinol, a oedd yn credu bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn sylfaenol i reoli a darparu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru drwy amseroedd heriol tu hwnt.<sup>19</sup>

## **Effaith y Ddeddf 2016 ar bartneriaeth gymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus**

**45.** Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn gryf mai tanseilio'r bartneriaeth gymdeithasol fyddai effaith y darpariaethau yn Neddf 2016 a fyddai, yn ei dro, yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Pwysleisiwyd bod cydraddoldeb rhwng partneriaid yn allweddol i weithrediad effeithiol y model partneriaeth gymdeithasol ac y byddai'r darpariaethau yn Neddf 2016 yn peryglu hyn.

**46.** Haerodd TUC Cymru bod y darpariaethau yn Neddf 2016:

“...undermine the ability of social partnership to function as [they]; shift the balance towards the employer undermining equity between social partners...”<sup>20</sup>

**47.** Amlygodd undeb GMB mai canlyniadau [Deddf 2016] fyddai gwanhau'n sylweddol y model partneriaeth gymdeithasol sy'n gweithredu yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er anfantais i gyflogwyr, yr undebau llafur a defnyddwyr gwasanaethau fel ei gilydd. Mae hefyd yn datgan:

“The relationships that have been built up have been firm and productive, and helped overcome many of the serious challenges posed by the climate of austerity...the Trade Union Act would have the effect, if implemented, of increasing the barriers to providing effective and efficient services and the well-being needs of those who both supply and receive them.”<sup>21</sup>

**48.** Dywedodd Cymdeithas y Radiograffwyr (SoR), os nad yw darpariaethau penodol yn Neddf yr Undebau Llafur 2016 Llywodraeth y DU (y Ddeddf) yn cael eu datgymhwyso, y byddai'r model partneriaeth yng Nghymru mewn perygl, y byddai'n fwy anodd i'n haelodau roi cleifion yn gyntaf, a byddai hynny'n effeithio'n andwyol ar ofal cleifion.<sup>22</sup>

**49.** Roedd y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN) hefyd yn gryf o'r farn y byddai Deddf 2016 yn effeithio ar y diwylliant o ran partneriaeth sydd wedi cael ei ddatblygu yng Nghymru.<sup>23</sup>

**50.** Credai ymatebwyr y byddai cynnal gwaith partneriaeth effeithiol yn bwysig ar gyfer parhau i ddarparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun llymder parhaus, rhagor o newid trawsnewidiol yn y GIG yng Nghymru ac, yn achos y sector llywodraeth leol, rhaglen ddiwygio arfaethedig Llywodraeth Cymru.

<sup>17</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>18</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 18

<sup>19</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01

<sup>20</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>21</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>22</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 11

<sup>23</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01

**51.** Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o’r farn y byddai’r Bil yn sicrhau bod y berthynas aeddfed ac effeithiol sydd wedi datblygu rhwng cyflogwyr ac undebau llafur ym maes llywodraeth leol yn parhau i helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.<sup>24</sup> O ran y mater o ddiwygio llywodraeth leol, mae’n cydnabod y byddai cynigion y diwygio yn anochel yn effeithio ar y gweithlu llywodraeth leol ac awgrymodd fod y dull partneriaeth yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen.<sup>25</sup>

**52.** Yn yr un modd, mewn perthynas â darparu gwasanaethau iechyd, dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol:

---

“Reversing the effects of the Trade Union Act will also have the crucial effect of maintaining and strengthening the productive spirit and culture of partnership working in Wales that has been so fundamental to the management and delivery of NHS services in Wales through extremely challenging times in recent years.”<sup>26</sup>

---

### **Rhwystrau posibl o ran rhoi’r Bil ar waith**

**53.** Roedd Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS) a TUC Cymru yn cyfeirio at farn wahanol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater o gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â’r Bil (gweler Pennod 2), ac roedd y PCS yn awgrymu y gallai hyn fod yn rhwystr posibl i weithredu’r ddeddfwriaeth.

**54.** Dywedodd y PCS:

---

“The main potential barrier to the implementation of the Bill’s provisions is presumably the UK Government’s purported belief that the National Assembly does not have the authority to legislate on this matter. This is contradicted, however, by legal advice to the UK Government that was leaked last year, which reinforced the view of the Welsh Government that the Assembly does have jurisdiction where legislation such as this impinges on staff in the devolved public sector.”<sup>27</sup>

---

**55.** Mae TUC Cymru yn credu’n gryf bod darpariaethau’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, a darparwyd papur briffio cyfreithiol manwl ar y mater hwn.<sup>28</sup>

**56.** Ar fater cysylltiedig, eglurodd TUC Cymru ei fod wedi bod eisiau gweld eithriad i’r mater a gedwir yn ôl o ran Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol ym Mil Cymru (Deddf Cymru 2017 bellach), a fyddai wedi gwneud gallu parhaus y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu yn y maes hwn yn glir.

**57.** Wrth roi sylwadau ar oblygiadau posibl y cymal a gedwir yn ôl o ran Cyflogaeth a Chysylltiadau Diwydiannol ar gyfer y Bil, pe bai’n cael ei basio, dywedodd TUC Cymru:

---

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>25</sup> Cofnod y Trafodion, paragraff 227, 16 Chwefror 2017 (DS: oni nodir yn wahanol, mae cyfeiriadau dilynol yn yr adroddiad hwn i ‘Cofnod y Trafodion’ yn cyfeirio at drafodion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau)

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 16

<sup>28</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03



---

“The people of Wales elect AMs to the National Assembly to make decisions about running our devolved public services. That’s a very important element of the decisions they make...If the Bill is passed and enacted...it would be absolutely clear that our elected representatives do not want those provisions [in the 2016 Act] applied to our public services. And I think it would be a fundamentally unconstitutional, undemocratic act of the UK Government then to disapply that.”<sup>29</sup>

---

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

---

**58.** Wrth roi sylwadau ar yr angen am y Bil, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ceisio cadw'r sefyllfa fel y mae hi.<sup>30</sup> Ymhelaethodd ar hyn, gan ddatgan:

---

“Our Bill seeks to preserve the successful status quo, to preserve the investment that we have made in Wales on building up the social partnership model, where we think we can demonstrate its success in avoiding industrial action, in promoting good industrial relations. We think the UK Act will make that more difficult in future, that it will introduce conflictual relationships, where consensual relationships exist today. And our Bill is designed to prevent those bad consequences occurring here in Wales.”<sup>31</sup>

---

**59.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod “partneriaeth gymdeithasol yn ganolog yn y Bil, ac yn ganolog i'r pwrpas o ddod â'r Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol”.<sup>32</sup>

---

“Social partnership is absolutely at the heart of the debate here. Since devolution, we have developed in Wales a distinctive approach to the way in which we try and address some of the very significant issues that face all our public services.”<sup>33</sup>

---

**60.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, mae gan bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru hanes llwyddiannus iawn.<sup>34</sup> Rhoddodd sawl enghraifft o ble roedd yn credu bod y dull partneriaeth gymdeithasol wedi arwain at osgoi streic yng Nghymru, gan gynnwys yn y sector addysg yn 2013, yn ystod anghydfod y diffoddwyr tân yn 2014, ac yn y GIG ynghylch contractau meddygon iau a'r staff Agenda ar gyfer Newid.<sup>35</sup>

**61.** Ar y mater o gymhwysedd deddfwriaethol, haerodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Bil, ym marn Llywodraeth Cymru, yn gyfan gwbl o fewn cymwyseddau datganoledig y Cynulliad Cenedlaethol.<sup>36</sup>

**62.** Yna cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at ohebiaeth gyda Llywodraeth y DU ar y Bil, nad oedd ar gael i'r cyhoedd ond ei fod wedi ei rannu gyda'r Pwyllgor ac â'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i gynorthwyo gyda'r gwaith o graffu ar y Bil. Esboniodd:

---

<sup>29</sup> Cofnod y Trafodion, para. 556, 16 Chwefror 2017

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, para. 36, 2 Chwefror 2017

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, para. 27, 9 Mawrth 2017

<sup>32</sup> Cofnod y Trafodion, para. 44, 2 Chwefror 2017

<sup>33</sup> Cofnod y Trafodion, para. 45, 2 Chwefror 2017

<sup>34</sup> Cofnod y Trafodion, para. 51, 2 Chwefror 2017

<sup>35</sup> Cofnod y Trafodion, para. 54-56, 2 Chwefror 2017

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, para. 16, 2 Chwefror 2017

---

“...the penultimate paragraph [of the letter] does say that the UK Government will act at the earliest possible opportunity, following commencement of the Wales Act, to ensure the legislation protects our public services.

[...]

Well, there are very different ways you could read that paragraph, but I read it as an implicit threat that the UK Government would introduce a Bill at the UK Parliament to overturn the Bill that is in front of this committee today, should this Bill reach the statute book. These are all possibilities for the future, rather than things that are guaranteed to happen.”<sup>37</sup>

---

## Ein barn

**63.** Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Undebau Llafur 2016 Llywodraeth y DU wedi bod yn destun cryn drafodaeth gyhoeddus a gwleidyddol, ac wedi ennyn safbwyntiau cryf gan yr undebau llafur, ond hefyd gan gyflogwyr, y sector cyhoeddus, y gymuned fusnes ac academyddion. Deallir y dadleuon ideolegol yn ymwneud ag undebau llafur yn eang a chânt eu hymarfer yn dda yn ystod hynt Bil yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU drwy'r Senedd yn Llundain.

**64.** Wrth ymgymryd â'n gwaith craffu ar Fil Llywodraeth Cymru, roeddem yn glir nad asesu rhinweddau neu fel arall yr undebau llafur oedd ein rôl, er, yn anochel, roedd rôl yr undebau yn y gweithlu ac fel partner cymdeithasol yn rhan bwysig o'n hystyriaethau. Yn lle hynny, roeddem ni'n ceisio profi honiad Llywodraeth Cymru y byddai'r darpariaethau yn Neddf 2016, y mae'r Bil yn ceisio eu datgymhwysu, yn cael effaith andwyol ar y bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru, y mae'n ei hystyried yn hanfodol o ran sicrhau y darperir gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yn effeithiol.

**65.** Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod y trefniadau o dan Ddeddf 1992 (h.y. y rhai a oedd ar waith cyn y Ddeddf 2016) yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru a'u bod yn ffafriol i'r dull partneriaeth gymdeithasol; mae hwn yn ddull y mae Llywodraeth Cymru, yr undebau llafur a chyflogwyr y sector cyhoeddus wedi ymrwymo iddo ac sydd fel pe bai'n gweithio'n effeithiol yng Nghymru.

**66.** Mae gweithredu diwydiannol ar draws y DU ar ei lefel isaf ers blynyddoedd. Mae streiciau hefyd wedi bod yn llai cyffredin yng Nghymru nag yn Lloegr yn y blynyddoedd diwethaf. Pan welwyd streiciau yn Lloegr, er enghraifft streic y meddygon iau, llwyddwyd i osgoi hynny yng Nghymru. Rydym wedi clywed fod hyn, yn rhannol o leiaf, oherwydd bod y model partneriaeth gymdeithasol yn gweithio'n effeithiol. Er gwaethaf hyn, nid yw cytundebau i ddatrys anghydfodau yn bosibl bob amser, ac ar brydiau, cafwyd gweithredu diwydiannol yng Nghymru. Sylweddolwn fod rhywfaint o densiynau ac anawsterau'n gysylltiedig â'r dull partneriaeth, a bod angen ymrwymiad parhaus iddo gan y partneriaid.

**67.** Yn hanfodol, clywsom fod y dull partneriaeth gymdeithasol yn fwy nag ynghylch cynnal cysylltiadau diwydiannol cadarnhaol yn unig, neu'n fwy na theclyn i osgoi streiciau. Clywyd tystiolaeth gref y bu gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i reoli a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn arbennig mewn cyfnod o lymder. Roedd sefydliadau'r sector cyhoeddus yn awyddus i bwysleisio bod angen cadw'r dull partneriaeth presennol er mwyn galluogi iddynt barhau i fynd i'r afael â heriau i ddarparu gwasanaethau.

---

<sup>37</sup> Cofnod y Trafodion, para. 11-15, 9 Mawrth 2017

**68.** Mae'n amlwg i ni fod llwyddiant y bartneriaeth gymdeithasol yn dibynnu ar gydraddoldeb rhwng y partneriaid, a bod y darpariaethau perthnasol yn Neddf 2016 yn debygol, i raddau amrywiol, i effeithio ar hyn. Nid oes gennym ddim amheuaeth, gyda'i gilydd, y bydd y darpariaethau hyn yn cael effaith niweidiol ar y bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Ar hyn o bryd, ystyrir bod yr undebau llafur, i raddau helaeth iawn, yn bartneriaid gwerthfawr a chyfartal sy'n gallu, ac sydd, yn ymgysylltu'n effeithiol ym mhob agwedd ar weithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, clywyd y neges yn gryf yn y dystiolaeth a ddaeth i law, bod darpariaethau perthnasol Deddf 2016 yn debygol o'i gwneud yn fwy anodd i undebau llafur weithredu'n effeithiol, gan greu anghydwysedd rhwng partneriaid, a chan felly danseilio'r dull partneriaeth gymdeithasol.

**69.** Yng ngoleuni'r uchod, rydym yn cefnogi egwyddor gyffredinol y Bil ac yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i ddatgymhwyso darpariaethau perthnasol Deddf 2016.

### **Argymhelliad 1.** Rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad gefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

**70.** Cyfeiriwn Ysgrifennydd y Cabinet, fodd bynnag, at ein casgliadau ar y gwaharddiad parhaus ar y defnydd o weithwyr asiantaeth i weithio mewn cyfnodau o weithredu diwydiannol a amlinellir ym Mhennod 7.

**71.** Ar y mater o gymhwysedd deddfwriaethol; nodwn yr ymddengys bod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU safbwyntiau gwahanol, o dan y setliad presennol, ynghylch a oes gan y Cynulliad gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â'r Bil. Rydym yn nodi hefyd y farn a fynegwyd yn y dystiolaeth a ddaeth i law ar y mater hwn. Yn amlwg mae goblygiadau ar gyfer gweithredu darpariaethau'r Bil i'r mater o gymhwysedd.

**72.** Nodwn farn Ysgrifennydd y Cabinet, y gall Llywodraeth y DU geisio diddymu deddfwriaeth y Cynulliad, os caiff ei deddfu, unwaith y bydd darpariaethau 'pwerau a gedwir yn ôl' Deddf Cymru 2017 yn dod i rym. Rydym hefyd yn cydnabod mai blaenoriaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar unwaith yw sicrhau hynt lwyddiannus y Bil drwy'r Cynulliad o dan y setliad presennol.

**73.** Nid ydym am ddyfalu bwriadau Llywodraeth y DU yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil, os caiff ei basio. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio diddymu deddfwriaeth a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ar yr adeg y pasiwyd y deddfwriaeth.

**74.** Rydym yn cydnabod bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi trefniadau ar gyfer cyfeirio cwestiynau ar gymhwysedd i'r Goruchaf Lys. Yn wir, mae Llywodraeth y DU wedi dibynnu ar y trefniadau hyn i gyfeirio ar ddau achlysur ers i'r Cynulliad gaffael pwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol gyntaf. Ni welwn unrhyw reswm cyfiawn i Lywodraeth y DU wyro oddi wrth yr un dull ar gyfer y Bil hwn.

## 04. Dileu'r cyfyngiadau ar ddidynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus

### Cefndir

**75.** Mae Adran 15 o Ddeddf 2016 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y gall tanysgrifiadau undeb gael eu didynnu o gyflog gweithwyr yn y sector cyhoeddus. Ni chaiff didyniadau o'r fath eu gwneud oni bai bod gweithwyr yn cael y dewis i dalu eu taliadau tanysgrifiadau undeb drwy dulliau eraill, a bod trefniadau wedi'u gwneud i'r undeb wneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr mewn perthynas â gwneud didyniadau.

**76.** Byddai Adran 1(2) o'r Bil yn darparu nad yw'r cyfyngiad ar ddidynnu taliadau tanysgrifiadau undeb o gyflogau yn y sector cyhoeddus yn gymwys i awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae ystyr 'awdurdodau Cymreig datganoledig' at ddibenion yr is-adran hon a'r holl is-adrannau perthnasol eraill wedi'i nodi yn adran 1(5) o'r Bil.

**77.** Gwybodaeth gyfyngedig a geir yn y Memorandwm Esboniadol am y pwrpas a'r effaith a fwriadwyd o ran adran 1(2).

**78.** O ran costau, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi fel a ganlyn:

“Ni chynhwysir y costau â gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â dileu amodau ar y trefniadau ar gyfer didynnu drwy'r gyflogres (didynnu taliadau tanysgrifio i undebau llafur o gyflogau). Ni wyddys y costau hynny ond bernir eu bod yn ymylol i gostau gweinyddol eraill sy'n gysylltiedig ag adnoddau dynol ac nid oes unrhyw reidrwydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddarparu'r gwasanaeth hwn os dynt o'r farn bod y costau'n feichus.”<sup>38</sup>

### Tystiolaeth gan ymatebwyr

**79.** Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth i adran 1(2) o'r Bil. Roedd ymatebwyr yn adrodd yn eang bod trefniadau o ran cyflogwyr yn tynnu tanysgrifiadau undeb o gyflogau a throsglwyddo'r taliad yn uniongyrchol i'r undeb wedi'u hen sefydlu, eu bod yn effeithlon, o fudd i bob ochr, ac nad oeddent yn costio llawer i gyflogwyr. O'r herwydd, ni allent weld unrhyw reswm dros osod cyfyngiadau ar y trefniant didynnu.

**80.** Dywedodd Cyngor Sir y Fflint:

“This is convenient for the employee and the trade unions and generates a transaction handling income for the Council as the employer. This is a beneficial business arrangement for all three parties. There is no practical reason to discontinue with the arrangement.”<sup>39</sup>

**81.** Nododd nifer o ymatebwyr fod y trefniant didynnu yn gytundeb gwirfoddol rhwng cyflogwyr ac undebau llafur, ac felly roeddent yn credu bod y cyfyngiadau yn amhriodol ac yn ddiangen. Roedd y

<sup>38</sup> Memorandwm Esboniadol, tudalen 20

<sup>39</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 07A

trefniadau y cytunwyd arnynt yn rhan o delerau ac amodau cyflogaeth y gweithiwr ac, yn ôl UNSAIN, nid yw'n fater i'r Llywodraeth ymyrryd [yn hyn o beth].<sup>40</sup>

**82.** Ar nodyn ehangach, roedd Cydffederasiwn y GIG yng Nghymru a Chyflogwyr GIG Cymru yn pwysleisio bod y cyfleuster didynnu yn rhan o wasanaeth ehangach a ddarperir i gefnogi a chydabod ymrwymiad y GIG i bartneriaeth gymdeithasol.<sup>41</sup>

**83.** Cododd nifer o ymatebwyr bryder y byddai cael gwared ar y cyfleuster didynnu yn effeithio ar aelodaeth o undebau llafur, a allai ansefydlogi'r undebau a newid y cydbwysedd rhwng partneriaid cymdeithasol.

**84.** Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd rhai cynrychiolwyr o undebau llafur fod y cyfyngiadau yn ymgais gan Lywodraeth y DU i gyflwyno rhwystrau i weinyddiaeth a threfniadaeth effeithiol yr undebau. Ar y mater hwn, dywedodd PCS bod y cyfyngiadau yn ymgais amlwg i danseilio trefniadaeth yr undebau drwy ymyrryd â dulliau recriwtio a chadw aelodau.<sup>42</sup>

### Manteision y trefniant didynnu

**85.** Cafwyd tystiolaeth gref gan ymatebwyr bod trefniadau didynnu o fudd, nid yn unig i'r undebau llafur a gweithwyr unigol, ond hefyd i gyflogwyr eu hunain.

**86.** Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr, fod didynnu yn ddull cyfleus i unigolion dalu eu tanysgrifiadau undeb, ac roedd o fudd arbennig i bobl ar incwm isel.

**87.** Ar fater cysylltiedig, dywedodd TUC Cymru bod y trefniadau yn caniatáu ar gyfer mynediad teg a chyfartal i gynrychiolaeth undebau llafur.<sup>43</sup> Eglurodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod y trefniant didynnu yn caniatáu i aelodau undeb gael eu cyfeirio'n gyflym ac yn briodol at eu hundebau am gymorth, cefnogaeth, eiriolaeth a chynrychiolaeth os oes angen.<sup>44</sup>

**88.** Yn ogystal, amlygodd CLILC fanteision y trefniant didynnu ar gyfer awdurdodau lleol:

“... it does allow local authorities to have an appreciation of union membership and density. It assists with understanding level of turnout and voting in the event of a ballot being undertaken. This can also be used to inform the facility time arrangement if membership levels change.”<sup>45</sup>

**89.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan Gydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru:

“Where [check-off] is offered it enables employers to understand the numbers of members in any one union and gain an understanding of the relative trade union membership across the organisation.”<sup>46</sup>

**90.** Eglurodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a Chanolbarth Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar lefel ymarferol, y gallai deall aelodaeth o undebau eu cynorthwyo i gynllunio wrth gefn mewn cyfnod sy'n arwain at weithredu diwydiannol.<sup>47</sup>

<sup>40</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>42</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 16

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>44</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>46</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

## Costau darparu trefniant didynnu

**91.** Dywedodd yr ymatebwyr hynny a gyflwynodd sylwadau ar y gost i gyflogwyr o ddarparu trefniant didynnu ei bod yn anodd, os nad yn amhosibl, i ddarparu gwybodaeth gywir am gostau. Maent yn amlygu bod systemau cyflogres awtomatig modern wedi'u sefydlu eisoes, ynghyd â threfniadau ar gyfer didyniadau. Felly roedd cost y trefniant didynnu yn fach iawn.

**92.** Nid oedd ymatebwyr, gan gynnwys cyflogwyr yn y sector cyhoeddus sy'n darparu trefniant didynnu, yn credu bod cost yn fater yr oedd angen rhoi sylw iddo drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

**93.** Dywedodd UNISON:

---

“One of the claims from the UK Government that these changes have been introduced because of the cost of [check-off] and the strain on the public purse are entirely false. The cost of [check-off] is negligible.”<sup>48</sup>

---

**94.** Dywedodd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fod 98 y cant o'u cyflogeion yn aelodau o Undeb y Brigadau Tân a'i fod yn darparu cyfleusterau didynnu ar gyfer ei weithwyr. Dywedodd y Gwasanaeth nad yw hynny'n broblem, nac yn faich mewn unrhyw ffordd ar hyn o bryd.<sup>49</sup>

**95.** Mynegwyd barn debyg gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac roedd Gwasanaeth Gogledd Cymru yn datgan:

---

“[Check-off] has been in place for so long the impact for us [of providing it] is absolutely minimal. We make no charge to the representative bodies for the facility. We find it assists in terms of industrial relations...”<sup>50</sup>

---

**96.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod trefniadau didynnu mewn awdurdodau lleol wedi hen ymsefydlu ac, mewn achosion lle y darperir trefniant didynnu, roedd Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar waith sy'n sicrhau bod awdurdodau yn cael ad-daliad am ymgymryd â'r trefniant.<sup>51</sup>

**97.** Pan gafodd ei holi ynghylch a ddylai fod yn ofynnol i awdurdodau geisio iawndal gan yr undebau llafur, dywedodd CLILC:

---

“Frankly, you as a legislator shouldn't be involved in this... This is something that we can sort out at a local level. I genuinely think that they are the preserve of local democracy and local government.”<sup>52</sup>

---

**98.** Esboniodd TUC Cymru, er bod nifer o gytundebau wedi'u gwneud rhwng cyflogwyr ac undebau llafur am daliadau ar gyfer didyniadau, nid oedd cyflogwyr yn gallu darparu union gostau. Felly, cânt eu had-dalu yn seiliedig ar ganran o gyfanswm y tanysgrifiadau undeb a ddidynnwyd. Credai TUC Cymru fod y dull hwn, yn y rhan fwyaf o achosion, yn 'annheg' gan ei fod yn golygu y byddai undebau yn talu mwy na'r gwir gost i gyflogwyr am ddarparu'r gwasanaeth.<sup>53</sup>

---

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, para. 184-185, 1 Mawrth 2017

<sup>48</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, para. 280, 16 Chwefror 2017

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, para. 483, 16 Chwefror 2017

<sup>51</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>52</sup> Cofnod y Trafodion, para. 280, 16 Chwefror 2017

<sup>53</sup> Cofnod y Trafodion, para. 483, 16 Chwefror 2017

## Cynlluniau didyniad cyflog eraill

**99.** Tynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys BMA Cymru, TUC Cymru a GMB sylw at y ffaith bod llawer o gyflogwyr yn cynnig cynlluniau didyniadau cyflog, fel, ar gyfer talebau gofal plant ac aelodaeth campfa, ond na fyddai'r rhain yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau â thanysgrifiadau undebau.

**100.** Dywedodd TUC Cymru bod yr undebau llafur yn cael eu neilltuo yn neddfwriaeth y DU, ac yn yr ymgais i ofyn am ffi weinyddu, mewn ffordd nad yw eraill yn eu profi. Datganodd:

---

“This is an equity issue and it's not about whether it costs the employer substantial amounts of money to provide the check-off system, it's about 'is there a hurdle we can put in the way of encouraging people to join trade unions'.”<sup>54</sup>

---

**101.** Mynegwyd barn debyg gan undeb y GMB a ddywedodd fod triniaeth wahaniaethol o'r fath yn annheg ac anghyfiawn, ac mai ei bwriad oedd rhwystro gallu'r undebau llafur i gynrychioli buddiannau eu haelodau.<sup>55</sup>

## Effaith Ddeddf 2016 ar aelodaeth o undebau llafur

**102.** Mae'r pryderon a godwyd yn y dystiolaeth mewn cysylltiad â'r trefniant didynnu yn bennaf yn ymwneud ag effaith bosibl cael gwared ar y trefniant ar aelodaeth o undebau llafur. Dylid nodi nad yw Deddf 2016 yn dileu'r trefniant. Fodd bynnag, mae'n gwneud darpariaeth didynnu yn amodol ar fod undebau llafur yn rhoi opsiwn i weithwyr dalu tanysgrifiadau drwy ddulliau eraill, ac ar fod undebau yn gwneud taliadau rhesymol i'r cyflogwr i dalu'r gost.

**103.** Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gydffederasiwn y GIG ac o Gyflogwyr GIG Cymru bryder, heb fynediad at drefniant didynnu, y byddai rhai gweithwyr yn methu â dod yn aelodau o undeb na chynnal eu haelodaeth bresennol, ac y gallai hyn ansefydlogi'r undebau llafur o bosibl.

**104.** Dywedodd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, o'r 86,500 o bobl a oedd yn gweithio yn GIG Cymru, mae oddeutu 26,000 yn talu eu tanysgrifiadau undeb drwy drefniant didynnu.<sup>56</sup> Felly, byddai cyfyngiadau ar y trefniant didynnu yn effeithio ar gyfran sylweddol o'i staff.<sup>57</sup>

**105.** Yn gysylltiedig â'r uchod, cododd Bwrdd Iechyd Cwm Taf bryder y byddai'r cyfyngiadau yn peryglu ac yn lleihau aelodaeth o undebau ar adeg pan fu wrthi'n ceisio annog staff i ymuno ag undebau llafur.<sup>58</sup>

**106.** Dywedodd UNSAIN bod y trefniant didynnu o fudd penodol i aelodau sydd ar gyflog isel, a dywedodd:

---

“...some bank accounts designed to allow people to better manage their budgets do not have a direct debit or standing order facility. The removal of

---

<sup>54</sup> Cofnod y Trafodion, para. 488, 16 Chwefror 2017

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>56</sup> Cofnod y Trafodion, para. 26, 1 Mawrth 2017

<sup>57</sup> Cofnod y Trafodion, para. 28, 1 Mawrth 2017

<sup>58</sup> Cofnod y Trafodion, para. 23 a 32, 1 Mawrth 2017

[check-off] would mean many low paid workers on precarious contracts losing their vital trade union representation.”<sup>59</sup>

**107.** Cododd UNSAIN bryder am effaith cael gwared ar y trefniant didynnu ar aelodau sydd wedi eu hynysu, sy'n anodd eu cyrraedd, neu aelodau nad oes ganddynt gyfleusterau TG naill ai yn eu bywydau gwaith nac yn eu bywydau personol. Datganodd:

“This would unfairly disadvantage those individuals and would potentially deny them the option of being a member of a trade union, so precluding them from the social partnership approach fully endorsed by Welsh Government.”<sup>60</sup>

**108.** Wrth gydnabod nad yw Deddf 2016 yn cael gwared ar y ddarpariaeth didynnu, fel y bwriadwyd yn wreiddiol, dywedodd GMB:

“The concerns regarding the effect of any prohibition [of check-off] upon employees on lower pay, primarily the prospect of them ceasing to be trade union members, or having to pay extra bank charges connected with direct debit payments have, therefore, been removed, but GMB remain opposed to the intrusion into voluntary arrangements agreed between employers and their recognised unions.”<sup>61</sup>

**109.** Eglurodd undeb y PCS, pan waredwyd y trefniant didynnu ar draws adrannau Llywodraeth y DU, er ei fod wedi cadw'r mwyafrif llethol o aelodau yr effeithiwyd arnynt, roedd hyn wedi neilltuo adnoddau sylweddol a allai fod wedi cael eu defnyddio i fynd i'r afael â materion yn y gweithle yn lle hynny.<sup>62</sup>

## **Effaith y Ddeddf 2016 ar bartneriaeth gymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus**

**110.** Aeth rhai ymatebwyr ymlaen i awgrymu bod yr effaith ar aelodaeth o undebau llafur, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, yn ei dro yn effeithio ar y dull partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

**111.** Dywedodd TUC Cymru y byddai'r cyfyngiadau ar y trefniant didynnu yn tansellio partneriaeth gymdeithasol:

“Attempting to undermine the relationship between employers and trade unions they voluntarily join has the potential to fundamentally challenge the social partnership model in Wales...it is crucial that this form of payment is protected and promoted as a healthy facet of workplace democracy.”<sup>63</sup>

**112.** Yn dilyn hynny, eglurodd fod y cyfyngiadau yn debygol o arwain at ostyngiad mewn aelodaeth o undebau, a fyddai'n effeithio ar y bartneriaeth gymdeithasol, oherwydd y byddai cyflogwyr yn dechrau dadlau nad ydynt [yr undebau] yn cynrychioli pobl a gyflogir ganddynt.<sup>64</sup> Hefyd rhoddodd

<sup>59</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>60</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>61</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>62</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 16

<sup>63</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>64</sup> Cofnod y Trafodion, para. 476, 16 Chwefror 2017



enghraifft, yn y 1990au, pan fu gostyngiad mewn aelodaeth o undebau llafur yn dilyn gofyniad gan Lywodraeth y DU i'r undebau llafur ail-gofrestru eu haelodau:

---

“...it did impact on the relationship that we had with employers and the social partnership working that occurred within the workplace – not necessarily in the wider context of the social partnership, but specifically in the workplace, it had a massive impact. And that’s where most of the issues are discussed and resolved.”<sup>65</sup>

---

**113.** Wrth roi sylwadau ar effaith y gostyngiad mewn aelodaeth o undebau llafur, dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Felindre:

---

“...it would have significant impact because when you’re actually dealing with current issues, or when you’re actually talking about periods of change, which we all are, across NHS Wales at the moment, then having the earliest possible conversations within partnership working arrangements makes a huge difference to the direction of travel, and the ultimate outcomes that we can achieve through change...having a strong base of trade union membership helps us achieve what we need to achieve for NHS Wales.”<sup>66</sup>

---

### **Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet**

**114.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet nad oes rheidwydd ar unrhyw gyflogwr i gynnig cyfleusterau didynnu, ac nid oes rheidwydd ar unrhyw weithiwr i fanteisio arnynt.<sup>67</sup> Mae’n nodi hefyd y defnyddir trefniannau didynnu at ddibenion heblaw aelodaeth o undebau llafur, gan gynnwys aelodaeth o undebau credyd, a dywedodd:

---

“The fact that this one example of check-off is being singled out tells you, I think, that this is not an argument about costs and mechanics and things. It is about trying to reduce the effectiveness of trade unions and their ability to carry out their legitimate role on behalf of their members.”<sup>68</sup>

---

**115.** Ar y mater o undebau llafur yn ad-dalu cyflogwyr am gyfleusterau didynnu, dywedodd:

---

“There are examples in Wales where trade unions make a contribution to the cost of covering it, but it is at a modest scale, and the modest scale reflects the modest costs to employers.”<sup>69</sup>

---

**116.** Pan ofynnwyd iddo ddarparu ffigurau ar nifer y cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy’n darparu cyfleusterau didynnu, a nifer y rhai sy’n codi tâl ar yr undebau llafur am y gwasanaeth hwn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“...these are matters for local operational determination. We do not routinely collect information of the sort...nor do we see any reason to do so...these are arrangements that are for agreement between individual employers and trade

---

<sup>65</sup> Cofnod y Trafodion, para. 480, 16 Chwefror 2017

<sup>66</sup> Cofnod y Trafodion, para. 36, 1 Mawrth 2017

<sup>67</sup> Cofnod y Trafodion, para. 107, 2 Chwefror 2017

<sup>68</sup> Cofnod y Trafodion, para. 114, 2 Chwefror 2017

<sup>69</sup> Cofnod y Trafodion, para. 114, 2 Chwefror 2017

unions, and I don't seek to interfere in the successful way and the unproblematic way that those arrangements have continued in Wales for many, many years.”<sup>70</sup>

**117.** Pan holwyd am effaith y cyfyngiadau ar ddiwyddu ar bartneriaeth gymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus, dywedodd:

“...[Check-off arrangements] simply allow trade unionists to pay their dues in a way that is straightforward for them and comes at no significant cost to employers and means that trade unions are able to play the part we need them to play in the successful conduct of industrial relations. If you change those things, all of them have an impact on the conditions of employment in devolved public services; all of them aim to impact on the way in which public services are provided.”<sup>71</sup>

**118.** Aeth yn ei flaen i ddweud:

“The intentions of the latest UK Government and their Act of last year are clear. They are designed to try and make it more difficult for individual members of trade unions to sustain their membership, to remove a facility that has been there without difficulty for many, many, many years...our view is that these [restrictions] are both unnecessary and, if they were to take place, they would damage our ability to go on pursuing a social partnership model where all partners at the table are in a position to discharge their part of that bargain.”<sup>72</sup>

**119.** Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod efallai nad yw'r darpariaethau yn Neddf 2016 yn atal y trefniant didynnu, ategodd eu bod wedi'u cynllunio i roi rhwystrau newydd – rhwystrau diangen a niweidiol yn y ffordd i ddarparu'r mecanwaith syml iawn hwn. Nododd ei fod yn tansilio'r undebau llafur ac mae hynny'n gwneud y busnes o bartneriaeth gymdeithasol yn llai effeithiol,<sup>73</sup> ac ychwanegodd:

“It always starts with our belief that public services in Wales are best provided, best protected, and best advanced in the future by a strong partnership model in which employers and employees come, as equals, around the table to solve common problems. Barriers to that model make that achievement of those objectives more difficult and, therefore, put the future of our public services under greater strain than would otherwise be the case.”<sup>74</sup>

## Ein barn

**120.** Cawsom dystiolaeth gref a oedd yn awgrymu bod y trefniadau hirsefydlog ar gyfer didynnu yn gweithio'n effeithiol ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn cydnabod bod y trefniadau hyn yn gwbl wirfoddol ac nad yw cyflogwyr o dan unrhyw rwymedigaeth i gynnig trefniant didynnu. Pan maent yn ei ddarparu, gall cyflogwyr ofyn am ad-daliadau gan yr undebau llafur am y gwasanaeth.

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, para. 116, 2 Chwefror 2017

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, para. 40, 2 Chwefror 2017

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, para. 104, 2 Chwefror 2017

<sup>73</sup> Cofnod y Trafodion, para. 44, 9 Mawrth 2017

<sup>74</sup> Cofnod y Trafodion, para. 46, 9 Mawrth 2017

Pan fydd trefniadau didynnu ar waith, yn gyffredinol, ystyrir eu bod, ynghyd ag amrywiaeth o gynlluniau didynnu eraill, yn rhan annatod o swyddogaethau gweinyddol a chyflogau arferol cyflogwyr.

**121.** Er yr ad-delir rhai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus gan yr undebau llafur am wasanaethau didynnu, nid yw hyn yn wir ym mhob achos. Clywsom fod y baich gweinyddol a'r costau sy'n gysylltiedig â darparu trefniant didynnu ar gyflogwyr yn ddibwys. Mae hyn, o bosibl, yn egluro pam bod cyn lleied o gyflogwyr yn gwneud cais am iawndal gan undebau llafur, ac yn fwy pwysig, pam nad oedd awydd ymhlith cyflogwyr am y newidiadau a gyflwynwyd yn Neddf 2016. Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod llawer o gyflogwyr yn cydnabod manteision trefniant didynnu iddynt hwy, yn enwedig y gallu i adnabod aelodaeth o undebau, sy'n cynorthwyo cyflogwyr wrth gynllunio ar gyfer gweithredu diwydiannol posibl yn y dyfodol. Rydym wedi clywed y gall y cyfyngiadau ei gwneud yn fwy anodd i adnabod aelodau o undeb a, phe cai trefniant didynnu ei dynnu (os na fyddai'r amodau yn Neddf 2016 yn cael eu bodloni) byddai hynn bron yn amhosibl.

**122.** Mae'n anodd asesu effaith y cyfyngiadau ar drefniadau didynnu y darperir ar eu cyfer drwy Ddeddf 2016 gydag unrhyw sicrwydd. Ar y gorau, y mae bodloni'r amodau yn debygol o fod yn anghyfleus i undebau llafur a chyflogwyr. Bydd yn rhaid i undebau wneud trefniadau eraill i gasglu tanysgrifiadau, a bydd yn rhaid i gyflogwyr gyfrifo a chytuno ar 'daliadau rhesymol' gydag undebau, fel y diffinnir yn y Ddeddf. Ar eu gwaethaf, gallai'r cyfyngiadau arwain at ddileu trefniadau didynnu, os nad yw'r amodau yn cael eu bodloni. Byddai goblygiadau ymarferol i hyn i unigolion gynnal eu haelodaeth o undeb, a gallai eithrio rhai grwpiau o weithwyr o fod yn aelodau o gwbl. Yn y pen draw, gallai effeithio ar ddwyseidd o ran aelodaeth o undebau, ac rydym wedi clywed y byddai hynny'n llesteirio gallu'r undebau i weithredu'n effeithiol fel partneriaid cymdeithasol.

**123.** Wrth gydnabod rôl werthfawr yr undebau llafur yn y gweithle ac fel partneriaid cymdeithasol, mae cyflogwyr, mewn rhai achosion, yn ceisio cynyddu aelodaeth o undebau. Rydym yn pryderu y gallai'r cyfyngiadau ar drefniadau didynnu gyflwyno rhwystrau diangen i gymryd rhan, a llesteirio'r nod hwn.

**124.** O ystyried yr uchod, rydym o'r farn fod y darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n ceisio cyfyngu ar wasanaethau didynnu yn ddiangen a direswm. Y maent hefyd yn dethol tanysgrifiadau undebau llafur oddi wrth daliadau eraill a wneir gan gyflogwyr ar ran cyflogaion. Ni welwn unrhyw reswm dilys dros gymhwyso'r darpariaethau i awdurdodau Cymreig datganoledig yng Nghymru. Drwy ansefydlogi'r bartneriaeth gymdeithasol, efallai y bydd y darpariaethau yn cael effaith andwyol ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol yng Nghymru. Felly, rydym yn cefnogi adran 1(2) o'r Bil.

## 05. Datgymhwyso'r rheoliadau ynghylch amser cyfleuster i awdurdodau Cymreig datganoledig

### Cefndir

---

**125.** Mae Adran 13 o Ddeddf 2016 yn rhoi pŵer, drwy reoliadau, i Weinidogion y Goron (hynny yw, aelodau o Lywodraeth y DU) ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud â'r amser cyfleuster a ddefnyddir gan swyddogion undebau llafur perthnasol.

**126.** Mae Adran 14 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol gapio canran o gyfanswm bil cyflog y cyflogwr a gaiff ei wario ar dalu swyddogion undeb am amser cyfleuster, ac yn cyfyngu ar hawliau swyddogion undeb i amser cyfleuster.

**127.** Byddai Adran 1(3) o'r Bil yn datgymhwyso rheoliadau ynghylch amser cyfleuster rhag effeithio ar awdurdodau Cymreig datganoledig.

**128.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, byddai datgymhwyso'r rheoliadau ar amser cyfleuster "yn cyfrannu at gynnal y dull hwn o weithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol oherwydd bod yr amser hwnnw'n rhan annatod o weithio mewn partneriaeth yn y gweithle."<sup>75</sup> Mae'n mynd ymlaen i restru "manteision sefydledig" amser cyfleuster, a'u bod yn cynnwys:

- arbedion i'r cyflogwr ac i'r Trysorlys, am fod llai o dribiwnlysoedd cyflogaeth yn cael eu cynnal;
- manteision o ran y ffaith bod llai o ddiwrnodau'n cael eu colli oherwydd anafiadau yn y gweithle;
- manteision o ran bod llai o salwch yn y gweithle.<sup>76</sup>

**129.** Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cyfeirio at y manteision ariannol posibl sy'n gysylltiedig ag amser cyfleuster:

---

"Er ei bod yn anodd mesur y manteision, mae yna dystiolaeth gref a gyflwynwyd wrth i Trade Union Act y DU fynd ar ei thaith drwy'r Senedd, sy'n dangos bod manteision ariannol sylweddol yn gysylltiedig ag amser cyfleuster."<sup>77</sup>

---

**130.** Mae'r Memorandwm Esboniadol ar Ddeddf yr Undebau Llafur y DU yn dweud bod y gofyniad ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus i gyhoeddi gwybodaeth yn ymwneud ag amser cyfleuster, "designed to promote transparency and public scrutiny of facility time; and to encourage those public sector employers to moderate the amount of money spent on facility time in light of that scrutiny".<sup>78</sup>

**131.** Yn ystod taith Bil Llywodraeth y DU drwy Senedd y DU, cyfeiriodd Llywodraeth y DU at yr arbedion sylweddol a wnaed ar ôl cyflwyno trefniadau adrodd am amser cyfleuster yn adrannau'r

---

<sup>75</sup> Memorandwm Esboniadol, para. 3.12

<sup>76</sup> Memorandwm Esboniadol, para. 3.12

<sup>77</sup> Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.13

<sup>78</sup> Nodiadau Esboniadol i Fesur yr Undebau Llafur Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015

Gwasanaeth Sifil, a dywedodd ei bod yn hyderus y byddai'r darpariaethau a oedd yn ymwneud ag amser cyfleuster yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd:79

**132.** Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Bil Llywodraeth Cymru, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod yr uchod, ac yn datgan:

“Nid yw'n glir sut y byddai'r manteision sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag adrodd ar amser cyfleuster yn arwain, ynddynt eu hunain, at ostyngiad yn yr amser a dreulir ar amser cyfleuster pe na bai rhyw gamau pellach yn cael eu cymryd neu pe na bai rhyw newid diwylliannol mewn ymateb i'r gofyniad hwnnw.”80

### Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

**133.** Roedd cefnogaeth gref yn y dystiolaeth i adran 1(3) o'r Bil. Dywedodd ymatebwyr, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, bod amser cyfleuster yn allweddol i gysylltiadau diwydiannol da, a'i fod yn cefnogi'r dull partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. Felly, maent yn pryderu y byddai unrhyw ostyngiad yn y swm o amser cyfleuster sydd ar gael o ganlyniad i'r darpariaethau yn cael effaith andwyol ar y rhain ac, yn y pen draw, ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

**134.** Rhoddodd nifer o ymatebwyr eglurhad ar ddiben amser cyfleuster a sut y caiff ei ddefnyddio mewn sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**135.** Nododd TUC Cymru:

“The ability of elected workplace union officials in the Welsh public sector to properly represent their members is in the interests of the effective delivery of Welsh public services in social partnership. This time is invested in the discharge of serious responsibilities including negotiating for fair pay and conditions, raising safety standards, promoting learning and equality as well as supporting members in grievance and disciplinary hearings. The ability to attend training in order to carry out this role effectively is also essential.”81

**136.** Esboniodd UNSAIN fod amser cyfleuster yn caniatáu i gynrychiolwyr yr undebau llafur ymgymryd â dyletswyddau craidd, sy'n cynnwys dyletswyddau sy'n gysylltiedig â bargeinio ar y cyd ar faterion fel telerau ac amodau cyflogaeth; diswyddiadau; gwerthuso swyddi; polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd; disgyblaeth; yn ogystal â chynrychiolaeth unigol.82

**137.** Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru:

“Trade union representatives provide a vital role in developing and working with NHS workplace policies and procedures. They support staff and their members with mediation and navigation through policies and workplace issues which supports the smooth running of the service.”83

<sup>79</sup> Pwyllgor Mesurau Cyhoeddus, Tŷ'r Cyffredin, 22 Hydref 2015, [Col 343-345]

<sup>80</sup> Memorandwm Esboniadol, para. 8.35

<sup>81</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>82</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>83</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

**138.** Wrth gydnabod bod amser cyfleuster yn 'sylfaenol' ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, adroddodd Gwasanaeth Ambiwylans Cymru y byddai'n adolygu cytundebau amser cyfleuster gyda'r bwriad o gynyddu'r amser sydd ar gael. Byddai hyn yn sicrhau bod undebau llafur yn gallu cymryd rhan yn y newid trawsnewidiol parhaus o fewn y Gwasanaeth.<sup>84</sup>

**139.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd ei fod yn gweithio gydag undebau llafur i nodi sut i gynyddu amser cyfleuster â thâl, o gofio bod y Bwrdd yn gofyn am fwy a mwy o fewnbwn [gan undebau].<sup>85</sup>

**140.** Pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bwysigrwydd amser cyfleuster, y mae'n ei ystyried fel ffordd o gynnal sgysiau ar lefel leol sy'n ein galluogi, yn lleol, i brofi rhai o'r syniadau y mae cynghorwyr a swyddogion yn eu cael. Adroddodd fod hyn yn fodd o brofi rhai o'r materion mwy dadleuol yn gynnar.<sup>86</sup>

## Manteision amser cyfleuster

**141.** Pwysleisiodd yr ymatebwyr fanteision amser cyfleuster ar gyfer gweithwyr a chyflogwyr, ac adroddodd nifer fod y manteision yn gorbwysu'r gost.

**142.** Dywedodd UNSAIN fod amser cyfleuster yn gwella cysylltiadau diwydiannol, cynhyrchiant ac effeithlonrwydd:

---

“[Staff] turnover is three times higher in non-unionised workplaces compared to unionised workplaces. Unionised workplaces are safer; they report less work-related injuries and illnesses. There is an obvious cost-benefit as a result of these factors.”<sup>87</sup>

---

**143.** Codwyd pwyntiau tebyg gan GMB, a nododd fod amser cyfleuster yn arwain at fanteision o ran cysylltiadau diwydiannol yn y gweithle, gan gynnwys gostyngiad yn nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i driwlynys cyflogaeth, llai o absenoldeb, cyfraddau trosiant is a lefelau cynhyrchiant uwch.<sup>88</sup>

**144.** Dyfynnodd TUC Cymru o adolygiad 2007 yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio Llywodraeth y DU ar y pryd o gost cynrychiolwyr undebau a'r buddion sy'n cronni. Canfu'r adolygiad bod amser cyfleuster yn arwain at arbedion sylweddol i gyflogwyr ac i'r llywodraeth.

**145.** Fel enghraifft:

- Roedd llai o anafiadau sy'n gysylltiedig â'r gweithle mewn gweithleoedd undebol, gyda chynrychiolwyr undebau yn arwain at £126-371 miliwn o arbedion i gyflogwyr bob blwyddyn;
- Roedd llai o salwch sy'n gysylltiedig â'r gweithle yn y gweithle undebol, gyda chynrychiolwyr undebau yn arwain at £45-207 miliwn o arbedion i gyflogwyr bob blwyddyn;
- Roedd lefel yr achosion triwlynsoedd cyflogaeth yn is yn y gweithle undebol, gyda chynrychiolwyr undebau yn arwain at arbedion o £22-43 miliwn i'r llywodraeth bob blwyddyn;

---

<sup>84</sup> Cofnod y Trafodion, para. 58, 1 Mawrth 2017

<sup>85</sup> Cofnod y Trafodion, para. 61, 1 Mawrth 2017

<sup>86</sup> Cofnod y Trafodion, para. 217, 16 Chwefror 2017

<sup>87</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>88</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

- Roedd cyfraddau diswyddo yn is yn y gweithle undebol, gyda chynrychiolwyr undebau yn arwain at arbedion o £107-213 miliwn mewn cysylltiad â chostau recriwtio bob blwyddyn; ac
- Roedd cyfraddau ymadael gwirfoddol yn is yn y gweithle undebol, gyda chynrychiolwyr undebau yn arwain at arbedion o £72-143 miliwn mewn cysylltiad â chostau recriwtio bob blwyddyn.<sup>89</sup>

**146.** Dywedodd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru.

“Facilities time provides significant benefits to industrial relations, as well providing savings and benefits to organisations and the service as a whole.”<sup>90</sup>

## Cyhoeddi gwybodaeth

**147.** Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod angen i sefydliadau'r sector cyhoeddus fod yn agored ac yn dryloyw o ran y defnydd o adnoddau cyhoeddus. Fodd bynnag, nid oeddent yn credu bod y gofyniad o ran cyhoeddi yn Neddf 2016 yn ffordd briodol i gyflawni hyn. Roedd pryder cyffredinol bod adrodd ar gost amser cyfleuster heb ddarparu unrhyw gyd-destun neu wybodaeth am fanteision cyfatebol, yn gamarweiniol ac yn ddi-fudd. Amlygodd yr ymatebwyr hefyd fod cryn dipyn o waith di-dâl yn cael ei gyflawni gan gynrychiolwyr undebau llafur, y tu allan i'w gwaith bob dydd.

**148.** Mae ychydig o gynrychiolwyr undebau llafur yn cwestiynu cymhelliant Llywodraeth y DU yn cyflwyno'r gofyniad, gyda GMB yn datgan:

“The [UK] Government seems to think that an excessive amount from the public purse is being spent on [facility] time, but it has not provided any evidence to support the case for change.”<sup>91</sup>

**149.** Dywedodd Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol (SWU):

“...whilst its apparent aim is to reduce the ‘cost to the tax payer’ for work that is undertaken for union business, it can also be seen as an attack on the trade union movement as a whole.”<sup>92</sup>

**150.** Wrth roi sylwadau ar yr angen am dryloywder, dywedodd CLILC nad oedd yn gwrthwynebu cyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster mewn egwyddor.<sup>93</sup> Fodd bynnag, dywedodd:

“Without a thorough understanding and insight into the issues and challenges that an authority is facing, some of which will be confidential and sensitive, it would be impossible to compare [information] on a fair and consistent basis, and therefore it will not be in the public interest.”<sup>94</sup>

**151.** Er enghraifft, adroddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn Lloegr, mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi cytundebau amser cyfleuster o dan delerau'r Cod Tryloywder Llywodraeth Leol 2014. Yn ôl y Gymdeithas, roedd rhai anghysondebau annisgwyl o fewn y ffigurau a

<sup>89</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>90</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>91</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>92</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 02

<sup>93</sup> Cofnod y Trafodion, para. 234, 16 Chwefror 2017

<sup>94</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

oedd yn fwyaf tebygol o ganlyniad i weithdrefnau cyfrifyddu gwahanol. Aeth ymlaen i adrodd nad oedd unrhyw fframwaith cyffredin i gyfrif amser cyfleuster mewn llywodraeth leol yng Nghymru, a fyddai'n ei gwneud yn anodd cymharu ffigurau.<sup>95</sup>

**152.** Dywedodd TUC Cymru nad oedd yn ofni tryloywder o gwbl.<sup>96</sup> Fodd bynnag, mae'n haeru bod y gofyniad yn Neddf 2016 yn ymwneud ag anwybyddu'r manteision ac, yn benodol iawn, ceisio nodi costau,<sup>97</sup> a oedd yn gwyrddio'r wybodaeth.<sup>98</sup> Mae'n datgan bod y canfyddiad mai cost yn unig yw amser cyfleuster yn dod o safbwynt ceisio atal yr undebau llafur rhag gweithredu, atal ymgysylltiad yr undebau llafur ac atal partneriaeth gymdeithasol.<sup>99</sup>

**153.** Er bod y RCN yn cefnogi'r egwyddor o dryloywder, a bod angen sicrhau gwerth am arian yn y GIG, mae'n mynegi pryder y gallai materion fel cost amser cyfleuster arwain at fod y GIG yn cael ei ddefnyddio fel 'pêl-droed gwleidyddol' ac y byddai'n tynnu oddi wrth yr heriau gwirioneddol o ran darparu gwasanaethau.<sup>100</sup>

**154.** Yn gysylltiedig â'r uchod, dywedodd UNSAIN:

---

“Without the removal of this provision, future focus will likely be on the cost of ‘tax-payer funded’ facility time and will not consider the importance of facility time, the right of workers to be properly represented by their recognised trade union, or the wider benefits workplaces with facility time agreements experience.”<sup>101</sup>

---

**155.** Amlygodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Gydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr y GIG Cymru, yn ogystal â methu â nodi manteision amser cyfleuster, ni fyddai'r wybodaeth a gyhoeddir o dan ofyniad y Ddeddf 2016 yn ystyried y gwaith ychwanegol, di-dâl a wneir gan gynrychiolwyr undeb. Yn ôl GMB, ar draws y sector cyhoeddus yn y DU, roedd y ffigur hwn hyd at 100,000 o oriau.<sup>102</sup>

**156.** Dywedodd TUC Cymru:

---

“What isn't then produced is the amount of time that representatives spend over and above their standard working hours, which they do on a regular basis. That isn't recorded, and the employer is then getting the benefit of a trade union representative working more hours than they pay them to work, for the benefit of the employer as well as the trade union members.”<sup>103</sup>

---

**157.** Pan holwyd hwy gan y Pwyllgor, nid oedd cynrychiolwyr o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am swm neu gost amser cyfleuster a gymerir gan gynrychiolwyr undebau llafur. Fodd bynnag, mae rhai, gan gynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin a

---

<sup>95</sup> Cofnod y Trafodion, para. 234, 16 Chwefror 2017

<sup>96</sup> Cofnod y Trafodion, para. 496, 16 Chwefror 2017

<sup>97</sup> Cofnod y Trafodion, para. 497, 16 Chwefror 2017

<sup>98</sup> Cofnod y Trafodion, para. 510, 16 Chwefror 2017

<sup>99</sup> Cofnod y Trafodion, para. 498, 16 Chwefror 2017

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, para. 421, 16 Chwefror 2017

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion, para. 514, 16 Chwefror 2017



Chanolbarth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a oedd yn gallu rhoi syniad am nifer y staff undebau llafur neu staff cyfwerth ag amser llawn yn eu sefydliadau.<sup>104</sup>

**158.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol fod ganddo “12 o staff cyfwerth ag amser llawn” sy’n cynrychioli 25,000 o aelodau ar draws pob sefydliad y GIG yng Nghymru.<sup>105</sup> Adroddodd bod cost hyn yn cael ei gydnabod fel arian a gaiff ei wario’n ddoeth o ran meithrin diwylliant o bartneriaeth a chydweithredu mewn gwasanaeth sy’n wirioneddol gymhleth ac sy’n ymdrin â materion heriol iawn.<sup>106</sup>

**159.** Er nad oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gallu darparu gwybodaeth fanwl am amser cyfleuster a gymerwyd, mae’n pwysleisio bod prosesau mewnol, ynghyd â threfniadau craffu yn rhoi cyfle cadarn i sicrhau bod cytundebau o ran amser cyfleuster yn deg ac yn rhesymol yng nghydestun pob awdurdod.<sup>107</sup>

**160.** Awgrymodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a Chymdeithas Cyflogwyr y Colegau a’r Prifysgolion y gallai’r gofyniad cyhoeddi yn Neddf 2016 greu baich gweinyddol ychwanegol ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus.<sup>108</sup>

**161.** Yn gysylltiedig â’r uchod, cododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf bryderon y byddai sefydlu mecanwaith biwrocraidd i gofnodi’r wybodaeth sydd ei hangen i fodloni’r gofyniad cyhoeddi yn tanseilio’r berthynas o ymddiriedaeth rhwng cyflogwyr ac undebau, a byddai hefyd yn cymryd amser staff.<sup>109</sup>

**162.** Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a oedd yn datgan:

---

“...we would have to set up a significant mechanism to capture that [information], which is then distracting people from what they should be achieving in that time. So, it is...actually about spending time on the things that add value for the trade union rep, and for us as an organisation.”<sup>110</sup>

---

## Cadw’r pŵer i gyfyngu amser cyfleuster

**163.** Mae GMB a TUC Cymru yn gwrthwynebu’n gryf y pŵer a gedwir yn ôl i Weinidogion y Goron, a ddarparwyd yn Neddf 2016, i gapio gwariant cyflogwyr ar hawliau cynrychiolwyr undebau i amser cyfleuster, ac i gyfyngu ar yr hawliau hynny.

**164.** Dywedodd y GMB:

---

“It is a grave concern that the [UK] Government wishes to provide itself with a reserve power to intervene in agreements reached consensually by other parties, and it cannot be in the interests of positive industrial relations in Welsh public services for those powers to be enforced here.”<sup>111</sup>

---

**165.** Dywedodd TUC Cymru:

---

<sup>104</sup> Cofnod y Trafodion, para. 213 a para. 62, 1 Mawrth 2017

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, para. 407, 16 Chwefror 2017

<sup>106</sup> Cofnod y Trafodion, para. 407, 16 Chwefror 2017

<sup>107</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>108</sup> Cofnod y Trafodion, para. 190-191, 1 Mawrth a thystiolaeth ysgrifenedig, TUB 13

<sup>109</sup> Cofnod y Trafodion, para. 70, 1 Mawrth 2017

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, para. 79, 1 Mawrth 2017

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

---

“Let’s be clear: these are UK Government Ministers acting throughout the devolved public services of Wales. We elect our Assembly Members and the Welsh Government to deliver our public services, and they have agreed to deliver that on the basis of social partnership. It’s absolutely undemocratic for a UK Minister to decide to cap [facility time] and prevent it.”<sup>112</sup>

---

**166.** Er nad oedd ymatebwyr eraill yn cyfeirio’n benodol at y pŵer a gedwir yn ôl, maent yn codi pryder am gyfyngiadau posibl ar amser cyfleuster, neu yn ei wrthwynebu.

**167.** Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylai faint o amser cyfleuster a gymerir gan gynrychiolwyr undebau llafur fod yn fater i gyflogwyr ac undebau llafur, a chyfeiriwyd at y gweithdrefnau penodol sydd ar waith o fewn eu sefydliadau ar gyfer cytuno ar amser cyfleuster.

**168.** Esboniodd TUC Cymru, yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, bydd cyflogwyr yn dod i gytundeb gyda’r undebau dros radd briodol yr amser a delir am ryddhau swyddogion [cynrychiolwyr] etholedig i ddarparu partneriaeth gymdeithasol. Parhaodd, gan bwysleisio mai’r mater allweddol yw bod amser cyfleuster yn gytundeb gwirfoddol rhwng y cyflogwr a’r undeb, sy’n nodi trefniadau priodol ar gyfer anghenion gweithleoedd penodol a gwasanaethau penodol.<sup>113</sup>

**169.** Roedd gan Gydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru fframwaith egwyddorion allweddol y cytunwyd arno wedi’i sefydlu o ran amser cyfleuster, a oedd yn diwallu anghenion y gwasanaeth ac yn cefnogi ein dull o bartneriaeth gymdeithasol. Felly, maent yn awgrymu nad yw’r gofynion yn Neddf 2016 yn angenrheidiol nac yn briodol.<sup>114</sup>

**170.** Esboniodd CLILC fod gan awdurdodau gwahanol gytundebau cyfleusterau gwahanol ac roedd o’r farn y dylent fod yn rhydd i ddatblygu cytundeb cyfleusterau sy’n addas i angen yr awdurdod. Aeth ymlaen i bwysleisio nad oedd yn cefnogi dull o’r brig i lawr, un ateb i bawb, a fyddai’n gosod gofynion ar awdurdodau lleol unigol.<sup>115</sup>

**171.** Yn yr un modd, credai Cyngor Sir y Fflint y dylai Cytundebau Cyfleusterau fod yn hyblyg, yn amodol ar gytundeb lleol, a’u bod yn seiliedig ar arfer a argymhellir, heb fod angen gosod y gyfraith.<sup>116</sup>

**172.** Yn gysylltiedig â’r uchod, dywedodd BMA Cymru fod y pŵer a gedwir yn ôl yn ymyrraeth ddiangen ac annheg i weithgareddau undebau llafur sy’n cynrychioli hawliau eu haelodau yn gyfreithlon.<sup>117</sup>

## **Effaith Deddf 2016 ar bartneriaeth gymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus**

**173.** Cododd nifer o ymatebwyr bryderon y byddai cyfyngu ar amser cyfleuster yn effeithio ar allu cynrychiolwyr undebau llafur i gyflawni eu dyletswyddau’n effeithiol. Yn unol â hynny, roeddent yn credu y byddai hyn yn erydu arferion gweithio mewn partneriaeth, yn arwain at gynnydd posibl mewn anghydfodau ac, yn y pen draw, yn cael effaith ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

---

<sup>112</sup> Cofnod y Trafodion, para. 502, 16 Chwefror 2017

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>114</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>115</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>116</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 07A

<sup>117</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 04

**174.** Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, roedd amser cyfleuster yn hanfodol er mwyn galluogi bod modd cynnal sgysiau aeddfed rhwng partneriaid. O'r herwydd, pe bai'n cael ei gyfyngu, byddai naws cysylltiadau diwydiannol yng Nghymru yn newid yn llwyr.<sup>118</sup>

**175.** Dywedodd y GMB:

---

“These proposals [in the 2016 Act] would hinder trade unions in preventing disputes arising in the first place and then to deal with them effectively to avoid escalation. It cannot be in the interest of the successful tripartite approach to industrial relations in Wales for these proposals to be introduced.”<sup>119</sup>

---

**176.** Dywedodd y Coleg Nyrsio Brenhinol:

---

“The bulk of the work that the paid [union representatives] would undertake would be supporting the partnership agenda...So, inevitably, if there's perceived to be an attack on facilities time, yes, it would have an impact in terms of partnership working, undoubtedly.”<sup>120</sup>

---

**177.** Aeth ymlaen i bwysleisio bod cynrychiolwyr undebau yn treulio eu hamser cyfleuster â thâl yn cymryd rhan mewn ffrydiau gwaith sydd wedi'u sefydlu gan y byrddau iechyd i geisio mynd i'r afael â'r problemau yr ydym yn eu hwynebu, ac i symud pethau ymlaen.<sup>121</sup>

**178.** Dywedodd Cymdeithas y Radiograffwyr:

---

“The concept of ensuring industrial relations issues are resolved closest to the people affected by them is a fundamental cornerstone of the partnership approach to good industrial relations. Time off for local representatives is therefore sensible, efficient and cost-effective. It ensures disputes are settled promptly without the need for escalation. Restricting facility time would damage this approach immeasurably. Conflict would inevitably increase and harm the partnership approach embedded within NHS Wales.”<sup>122</sup>

---

**179.** Yn arbennig, cododd y Gymdeithas bryder am effaith unrhyw gyfyngiadau ar waith Cynrychiolwyr Iechyd a Diogelwch a Chynrychiolwyr Dysgu Undebau. Nododd fod cynrychiolwyr yn sicrhau arbedion sylweddol i'r GIG wrth i ni rannu'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod aelodau yn gweithio'n ddiogel a'u bod yn gallu cynnal eu cofrestrriad proffesiynol.<sup>123</sup>

**180.** Hefyd, darparodd BMA Cymru enghraifft benodol o sut y gallai cyfyngu ar amser cyfleuster effeithio ar weithio mewn partneriaeth. Mae'n mynegi pryder y gallai cyfyngiadau ar amser cyfleuster effeithio ar aelodau Cymdeithas Feddygol Prydain a gaiff eu hethol fel cynrychiolwyr ar Bwyllgorau Trafod Lleol, a fyddai'n hynod niweidiol.<sup>124</sup>

---

<sup>118</sup> Cofnod y Trafodion, para. 220, 16 Chwefror 2017

<sup>119</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>120</sup> Cofnod y Trafodion, para. 387, 16 Chwefror 2017

<sup>121</sup> Cofnod y Trafodion, para. 387, 16 Chwefror 2017

<sup>122</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 11

<sup>123</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 11

<sup>124</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 04

**181.** Esboniodd TUC Cymru fod rôl cynrychiolwyr undebau yn cael effaith fuddiol fawr ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn fwy diogel ac yn well, a bod eu gallu i gynrychioli aelodau er budd darparu gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol yng Nghymru mewn partneriaeth gymdeithasol. Rhoddodd enghraifft benodol o effaith bosibl cyfyngu ar amser cyfleuster ar ddiogelwch diffoddwyr tân.<sup>125</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**182.** Wrth egluro'r angen i ddatgymhwysu'r darpariaethau yn Neddf 2016 yn ymwneud ag amser cyfleuster, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I don't think we can be under any illusion about what the purpose of the facility time restrictions are in the [2016 Act]...[they] are there to reduce the amount of facility time available to trade union representatives, as though facility time were only a cost on the public purse...Facility time is a very valuable tool for employers as well as employees, and attempting artificially to cut down on it will make the conduct of industrial relations and the social partnership model more difficult, not easier.”<sup>126</sup>

**183.** Wrth roi sylwadau ar haerid Llywodraeth y DU y bydd cyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster yn gwella tryloywder a chraffu cyhoeddus, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...this is not, as sometimes it is portrayed, a sort of thirst for knowledge, in which UK Government Ministers are simply wishing to put information into the public domain. Their intention was clear—that it was to try to reduce the amount of time that trade union officials would have at their disposal to carry out that very important industrial relations work...”<sup>127</sup>

**184.** Nododd hefyd:

“The problem is not a problem of transparency...because this information is available for anybody who wants it.”<sup>128</sup>

**185.** Yn ddiweddarach, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“...capturing the paid facility time I believe is not a difficulty for employers, and a simple freedom of information request would produce that for any citizen who wanted to see it. Capturing the contribution of that much wider number of volunteers who carry out duties on behalf of trade unions, and contribute in the way that trade unions do, would be harder.”<sup>129</sup>

**186.** Roedd yn gwrthwynebu'r gofyniad o ran adrodd yn Neddf 2016, ar y sail y byddai'n darparu adroddiadau rhannol a gwyrngam ar amser cyfleuster. Er bod y Ddeddf yn gofyn am adrodd ar gostau amser cyfleuster, nid oedd unrhyw rwyngedigaeth o gwbl i wneud unrhyw asesiad o fanteision sydd

<sup>125</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>126</sup> Cofnod y Trafodion, para. 39, 2 Chwefror 2017

<sup>127</sup> Cofnod y Trafodion, para. 70, 2 Chwefror 2017

<sup>128</sup> Cofnod y Trafodion, para. 130, 2 Chwefror 2017

<sup>129</sup> Cofnod y Trafodion, para. 59, 9 Mawrth 2017

wedi deillio ohono. Ychwanegodd fod y gofyniad yn darparu adroddiad gwyrngam o'r ffordd y mae cysylltiadau diwydiannol priodol yn cael eu cynnal, ac y byddai'n gamarweiniol i'r cyhoedd.<sup>130</sup>

**187.** Ar fanteision amser cyfleuster, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“...the record shows that when you have effective trade union representation, it works for the benefit of employers and the public services, and therefore the people who use those public services, just as much as it does for trade unions.”<sup>131</sup>

---

**188.** Rhoddodd nifer o enghreifftiau o'r hyn a oedd, yn ei farn ef, yn fanteision amser cyfleuster, gan gynnwys lleihad yn nifer y tribiwnlysoedd cyflogaeth, llai o ddiwrnodau a gollir oherwydd anafiadau yn y gwaith ac o amser a gollir oherwydd salwch, llai o ddiswyddiadau a cholli pobl sydd â sgiliau prin.<sup>132</sup>

**189.** Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet wedi hynny:

---

“The UK Government’s Act is an attempt to suppress all of that information, to pretend that all the benefits that go with trade union membership for public services don’t exist. We have an opportunity in our Bill both to ensure that that way of thinking doesn’t undermine our public services social partnership model here in Wales, but also to allow for some promotion of the positive benefits of the way that we do things here in Wales, both for individuals who might be members of trade unions but, essentially, for our model of the way in which that membership translates into improved public services, reduced risks of industrial action and disruption. We think we can demonstrate that from the history of the period of devolution.”<sup>133</sup>

---

## Ein barn

**190.** Rydym yn cydnabod yr awgrym mewn tystiolaeth a gafwyd, mai amcan Llywodraeth y DU wrth ddeddfu ar amser cyfleuster yw sicrhau y ceir lleihad mewn amser cyfleuster yn y tymor hwy. Rydym hefyd yn cydnabod y byddai hyn yn gwrthdaro'n uniongyrchol â dull Llywodraeth Cymru o reoli cysylltiadau diwydiannol drwy'r model partneriaeth gymdeithasol, yr ydym wedi'i glywed sy'n gweithio'n effeithiol yng Nghymru.

**191.** Mae mynediad at amser cyfleuster digonol yn hanfodol i alluogi cynrychiolwyr undebau llafur i gyflawni eu dyletswyddau, y mae ganddynt hawl i'w gwneud yn unol â'r trefniadau a nodir yn Neddf 1992. Clywsom dystiolaeth gref, yn ogystal ag ymgymryd â dyletswyddau'n ymwneud â chynrychiolaeth unigol a bargeinio ar y cyd, mae'r undebau yn cymryd rhan yn yr agenda gwella gwasanaethau cyhoeddus ehangach, a bod cyflogwyr yn y sector cyhoeddus yn gweld gwerth y rôl ehangach hon. Dywedwyd wrthym am nifer yr oriau di-dâl sylweddol a roir i waith undeb gan gynrychiolwyr yr undebau llafur.

**192.** Clywsom hefyd dystiolaeth rymus ynglŷn â manteision amser cyfleuster, nid yn unig i undebau llafur a'u haelodau, ond i sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod gweithwyr yn gwybod am y manteision hyn, i'w helpu i wneud dewisiadau doeth o ran ymuno ag

---

<sup>130</sup> Cofnod y Trafodion, para. 130, 2 Chwefror 2017

<sup>131</sup> Cofnod y Trafodion, para. 171, 2 Chwefror 2017

<sup>132</sup> Cofnod y Trafodion, para. 121-122, 2 Chwefror 2017

<sup>133</sup> Cofnod y Trafodion, para. 75, 9 Mawrth 2017

undebau llafur, a bod gan y cyhoedd yn gyffredinol ddealltwriaeth o realiti'r sefyllfa hon. Clywsom y gall y manteision sy'n gysylltiedig ag amser cyfleuster arwain at arbedion cost sylweddol. Felly, nid oes gennym ddim amheuaeth fod amser cyfleuster yn fuddsoddiad doeth mewn gwasanaethau cyhoeddus ac rydym yn credu y dylid ei ystyried fel hyn. Os yw undebau llafur i barhau i weithredu'n effeithiol fel partneriaid cymdeithasol ac i gyfrannu at yr agenda gwella, yna mae'n rhaid diogelu'r trefniadau presennol ar gyfer cytuno ar amser cyfleuster.

**193.** Rydym yr un mor bryderus, o ran y pryder a nodwyd yn y dystiolaeth, am y risgiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi data amrwd ar swm, a chost amser cyfleuster a gymerir, heb wybodaeth gyfatebol am y manteision. Ni allwn weld sut y byddai hyn er lles y cyhoedd nac er lles gweithio mewn partneriaeth.

**194.** Nodwn mai cyfyngedig oedd y wybodaeth y gallai ymatebwyr ei rhoi am faint o amser cyfleuster a gymerir gan gynrychiolwyr undeb o fewn eu sefydliadau eu hunain, ac ni allent ddarparu manylion penodol am y gost sy'n gysylltiedig â hynny. Deallwn y byddai modd casglu gwybodaeth am nifer a chost staff cyfwerth ag amser llawn o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac y byddai ar gael, pe bai angen. Fodd bynnag, byddai casglu gwybodaeth fanwl am weithwyr sydd ond yn treulio cyfran o'u hamser ar ddyletswyddau undeb yn broblemus mewn termau ymarferol, ac o bosibl yn gostus. O ystyried hyn, rydym yn credu y byddai'r gofyniad yn Neddf 2016 i gyhoeddi gwybodaeth am amser cyfleuster yn creu biwrocratiaeth diangen ac yn rhoi baich ariannol ar gyflogwyr yn y sector cyhoeddus.

**195.** I ni, y mater allweddol yw sicrhau bod gwiriadau a chydbwysedd addas ar waith ar draws sefydliadau yn y sector cyhoeddus, fel bod yr amser sydd ar gael ar gyfer amser cyfleuster yn deg, yn rhesymol ac yn helpu i gynnal gweithlu sy'n gweithredu'n effeithiol.

**196.** Ar y mater hwn, clywsom dystiolaeth am amrywiaeth o drefniadau a oedd ar waith ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus i gytuno ar amser cyfleuster, a'i adolygu, a'u bod yn gweithio'n dda. Ni chlywsom dystiolaeth o gwbl a oedd yn awgrymu bod pryder ynghylch faint o amser cyfleuster a gaiff ei gymryd gan gynrychiolwyr undebau llafur. I'r gwrthwyneb, clywsom fod rhai sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn ystyried cynyddu faint o amser sydd ar gael i gynrychiolwyr undebau, i gydnabod eu rôl gadarnhaol wrth helpu i baratoi'r gweithlu ar gyfer rhagor o newid trawsnewidiol.

**197.** Gwrthwynebwn yn bendant y pŵer a gedwir yn ôl i Weinidogion y Goron, fel y darperir yn Neddf 2016, i gapio cost amser cyfleuster a chyfyngu ar faint o amser cyfleuster sydd ar gael i gynrychiolwyr undebau. Rydym o'r farn nad yw'n briodol nac yn ddymunol i bŵer o'r fath gael ei ddarparu i Lywodraeth y DU na'i arfer ganddi mewn perthynas â gwasanaethau datganoledig yng Nghymru. Byddai unrhyw leihad mewn amser cyfleuster yn ddi-os yn llesteirio gallu'r undebau llafur i weithredu'n effeithiol, a byddai'n amharu ar allu cyflogwyr i ddarparu dull da o reoli adnoddau dynol. Hefyd, rydym o'r farn y byddai lleihau amser cyfleuster yn niweidiol i'r bartneriaeth gymdeithasol ac, yn y pen draw yn niweidiol i barhad darparu gwasanaethau cyhoeddus a'u gwella yng Nghymru.

**198.** Yng ngoleuni'r rhesymau a amlinellir uchod, rydym yn cefnogi adran 1(3) o'r Bil.

## 06. Datgymhwyso'r trothwy o 40 y cant o bleidleisiau o blaid gweithredu diwydiannol sy'n effeithio ar 'wasanaethau cyhoeddus pwysig'

### Cefndir

**199.** Mae Adran 3 o Ddeddf 2016 yn diwygio Adran 226 o Ddeddf 1992 i ddarparu bod yn rhaid i o leiaf 50 y cant o holl aelodau undeb sydd â hawl i bleidleisio arfer eu hawl i bleidleisio, a rhaid i o leiaf 50 y cant o'r rhai sy'n pleidleisio bleidleisio o blaid cymryd camau gweithredu diwydiannol. Yn ogystal, os yw'r aelodau yn darparu 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig', sydd i'w diffinio mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, rhaid i o leiaf 40 y cant o'r aelodau hynny sydd â hawl i bleidleisio gefnogi cymryd camau gweithredu diwydiannol.

**200.** Ar 1 Mawrth 2017, daeth y rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' i rym ac maent yn awr yn gymwys yng Nghymru.

**201.** Byddai adran 1(4) o'r Bil yn datgymhwyso'r trothwy cefnogaeth o 40 y cant ar gyfer gweithredu diwydiannol, sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig a ddarperir gan awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae'n darparu, efallai na fydd y rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau Cymreig datganoledig.

**202.** Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Mae llwyddiant y model [partneriaethau cymdeithasol] yn dibynnu ar sicrhau cydbwysedd yn y berthynas rhwng y partneriaid cymdeithasol ac, yn benodol, yn y berthynas rhwng undebau llafur a chyflogwyr. Mae rhoi ffrwyn ar weithredu diwydiannol drwy bennu trothwy o 40% yn newid y cydbwysedd hwnnw ac nid yw'r model gweithredu ar sail partneriaethau cymdeithasol yn effeithiol hebddo. Os na fydd yr undebau llafur yn gallu cydweithio â chyflogwyr mewn ffordd gyfartal, bydd hynny'n cael effaith andwyol ar sut y maent yn cydweithio â phartneriaid cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.”<sup>134</sup>

**203.** Mae'r arbedion cost a gynhwysir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer y ffigurau yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru. Mae Asesiad Llywodraeth Cymru yn darparu costau cysylltiedig ar gyfer datgymhwyso'r gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant fel yn llai nag £85,000 y flwyddyn. Mae hwn wedi'i seilio ar yr amcangyfrif o effaith net cynnydd mewn diwrnodau gwaith a gollir oherwydd gweithredu diwydiannol.

### Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

**204.** Roedd cefnogaeth eang yn y dystiolaeth ar gyfer adran 1(4) o'r Bil. Credai'r ymatebwyr bod y trothwy, ymhlith pethau eraill, yn amhriodol a di-sail,<sup>135</sup> yn fypwyl a beichus,<sup>136</sup> a diangen ac afresymol.<sup>137</sup> Fodd bynnag, dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn ei farn ef, nid oedd y

<sup>134</sup> Memorandwm Esboniadol, para. 311

<sup>135</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 04

<sup>136</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 09

<sup>137</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 02

trothwy yn ymddangos yn afresymol. Aeth ymlaen i awgrymu y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i ddatgymhwyso'r trothwy.<sup>138</sup>

**205.** Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'n gryf osod y trothwy yng Nghymru ar y sail ei fod yn tansilio hawl gweithwyr i streicio; roedd yn wahaniaethol; byddai'n tansilio dull partneriaeth gymdeithasol; yn niweidio cysylltiadau diwydiannol; ac yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau. Edrychir yn fanwl ar y materion hyn yng ngweddill y bennod hon.

### Hawl i unigolion streicio fel y cam olaf

**206.** Roedd nifer o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r gofynion trothwy pleidleisio yn Neddf 2016, yn arbennig y trothwy cefnogaeth o 40 y cant, ar y sail ei fod yn ardaro ar hawl sylfaenol yr unigolyn i weithredu'n ddiwydiannol. Mae'r hawl hon wedi'i nodi yn Erthygl 11 o Gonfensiwn yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:

**207.** Dywedodd y GMB:

---

“The right to strike is an essential human right and an integral feature of a free and democratic society. It is unclear as to what problem the Act seeks to solve. The number of days lost to industrial action are at an historic low...these thresholds represent an unjustified and disproportionate restriction on the right to strike and that...will inevitably damage industrial relations within Welsh public service areas.”<sup>139</sup>

---

**208.** Nododd UNSAIN a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd bod streicio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ar ei lefel isaf ers blynyddoedd.<sup>140</sup>

**209.** Eglurodd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru fod streiciau yn y GIG yng Nghymru dros y degawd diwethaf wedi bod yn fach iawn, er gwaethaf newid sefydliadol sylweddol a chyflwyno newidiadau sylweddol i delerau ac amodau contractau'r GIG.<sup>141</sup>

**210.** Adroddodd y Coleg Nyrsio Brenhinol ac Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol nad oedd eu sefydliadau hwy erioed wedi bod yn rhan o streic. Maent yn dadlau'n gryf, fodd bynnag, y dylai eu haelodau fod â'r hawl i streicio.<sup>142</sup>

**211.** Dywedodd Undeb y Gweithwyr Cymdeithasol:

---

“Our service users are the most important people, but we want to reserve the right, as a last resort, to take action as necessary, in the same way as any other employee should be able to in this country.”<sup>143</sup>

---

**212.** Er gwaethaf yr uchod, awgrymodd y gallai gosod y trothwy cefnogaeth o 40 y cant wneud aelodau o undeb hyd yn oed yn fwy brwdfrydig i ymgyrchu.<sup>144</sup>

---

<sup>138</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 18

<sup>139</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>140</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14 a TUB 10

<sup>141</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>142</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01 a TUB 02

<sup>143</sup> Cofnod y Trafodion, para. 426, 16 Chwefror 2017

<sup>144</sup> Cofnod y Trafodion, para. 426, 16 Chwefror 2017



**213.** Pwysleisiodd ymatebwyr eraill na fyddai eu haelodau yn ymgymryd ag unrhyw fath o weithredu diwydiannol yn ddi-feddwl, a bod camau i streicio yn cael eu defnyddio fel dewis olaf.

**214.** Esboniodd y Coleg Nyrsio Brenhinol fod ar y sefydliad gyfyngiadau difrifol o ran y gweithredu diwydiannol y gall gymryd rhan ynddo. Roedd yn gwrthbrofi'n bendant haerid Llywodraeth y DU bod undebau yn streicio heb fandad democrataidd cryf gan eu haelodau.<sup>145</sup>

**215.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan TUC Cymru.<sup>146</sup>

### 'Gwasanaethau cyhoeddus pwysig'

**216.** Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys TUC Cymru, y Coleg Nyrsio Brenhinol ac UNSAIN bryderon fod y gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant yn gwahaniaethu yn annheg yn erbyn gweithwyr yn y sector cyhoeddus ac mewn gwasanaethau penodol o fewn y sector. Nododd rhai hefyd y byddai'r trothwy yn cael effaith anghymesur ar fenywod.

**217.** O ran y mater o 'wasanaethau cyhoeddus pwysig' a fyddai'n destun y trothwy o 40 y cant, nid oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng 'iechyd, addysg, y gwasanaeth tân a chlodiant' a'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan awdurdodau lleol. Credai fod pob gwasanaeth cyhoeddus yn bwysig, ac nid oedd yn cytuno bod angen gwahaniaethu rhwng y gwasanaethau hyn at ddibenion pleidleisio.<sup>147</sup>

**218.** Pan gafodd ei holi ynghylch a ddylid gosod trothwy ar gyfer y gwasanaethau hynny ble y gallai gweithredu diwydiannol posibl effeithio ar iechyd a diogelwch y cyhoedd, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

---

“...in a democratic society there are trade-offs aren't there? It's the right to strike versus the inconvenience to the public, and I think, from our point of view, what we want to make sure is that people don't go on strike, and I think we have a system in Wales that, with a few exceptions...minimises the amount of days taken in terms of strike action.”<sup>148</sup>

---

**219.** Roedd TUC Cymru yn cyfeirio at y trothwy fel elfen 'wahaniaethol', ac mae'n nodi:

---

“[it] present[s] a clear disadvantage for workers in these services as compared with those on other parts of the public sector and those working in the private sector...Women will also be disproportionately affected by the UK threshold as the majority of union members working in the services concerned are female.”<sup>149</sup>

---

**220.** Gwnaed pwyntiau tebyg gan y Coleg Nyrsio Brenhinol ac UNSAIN.<sup>150</sup>

**221.** Nododd TUC Cymru nad oedd Deddf 2016 yn diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' ac, o ganlyniad, mae'r ddeddfwriaeth yn anwybyddu'r safonau rhyngwladol. Mae'n dweud bod y

---

<sup>145</sup> Cofnod y Trafodion, para. 427, 16 Chwefror 2017

<sup>146</sup> Cofnod y Trafodion, para. 540-542, 16 Chwefror 2017

<sup>147</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 10

<sup>148</sup> Cofnod y Trafodion, para. 306, 16 Chwefror 2017

<sup>149</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>150</sup> Cofnod y Trafodion, para. 427, 16 Chwefror a thystiolaeth ysgrifenedig TUB 14

Gymdeithas Cyfraith Cyflogaeth wedi rhybuddio y gallai gosod y trothwyon hyn gael ei herio ar y sail eu bod yn torri rheol Erthygl 11 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<sup>151</sup>

**222.** Parhaodd TUC Cymru gan nodi pryder y byddai'r trothwy cefnogaeth o 40 y cant yn creu anawsterau gweinyddol wrth geisio adnabod aelodau o fewn y 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' y byddai'r trothwy yn berthnasol iddynt. Er enghraifft, eglurodd:

---

“It's the administrative nightmare of trying to deliver the definition of what 'important public services' are, and how you would identify which groups of members you are balloting. So, for example, a teacher who spends 40 per cent of their time on GCSE, and 40 per cent of their time on A-level, and the rest on an administrative function: the GCSE is an 'important public service' under the Act, but the A-level is not. Would you ballot them under the [Act's] requirements?”<sup>152</sup>

---

## Trothwyon cymaradwy

**223.** Mae nifer o ymatebwyr, gan gynnwys GMB, TUC Cymru, y Gymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru, CLILC a BMA Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad oes trothwyon tebyg wedi'u sefydlu ar gyfer etholiadau neu refferenda gwleidyddol, gyda rhai yn awgrymu bod y trothwy felly'n annheg a hyd yn oed yn wahaniaethol.

**224.** Ar y mater hwn, pwysleisiodd Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bod angen defnyddio egwyddor, a dywedodd:

---

“...if we're going to talk about thresholds, let's be consistent and let's do it across all elements of the public sector. I think to apply it solely to the trade union ballot is unfair...if we apply these principles across the way that we deliver democracy in the UK, it would forbid people from standing for public office, almost.”<sup>153</sup>

---

**225.** Honnodd UNSAIN fod y trothwy 40 y cant yn annemocrataidd ac yn annheg iawn pan nad oes disgwyl i unrhyw wleidydd fodloni trothwy o'r fath, ac na fu disgwyl i unrhyw refferendwm gadw at drothwy o'r fath.<sup>154</sup>

**226.** Mynegodd BMA Cymru farn debyg, gan ddweud ei bod yn ymddangos yn rhyfedd bod y trothwy cefnogaeth o 40 y cant yn cael ei gymhwyso ar gyfer y sector cyhoeddus yn unig, pan y gellid dadlau, bod penderfyniadau hyd yn oed yn fwy yn cael eu gwneud mewn refferenda ar ddatganoli ac ar Brexit heb fod angen cyrraedd unrhyw drothwy o'r fath.<sup>155</sup>

**227.** Ar fater cysylltiedig, tynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys TUC Cymru, BMA Cymru, Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru a'r GMB sylw at y ffaith, wrth gymhwyso'r trothwy, y byddai ymataliadau yn cael eu trin fel pleidleisiau 'yn erbyn', ac roeddent yn gwrthwynebu hyn.

---

<sup>151</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>152</sup> Cofnod y Trafodion, para. 539, 16 Chwefror 2017

<sup>153</sup> Cofnod y Trafodion, para. 294, 16 Chwefror 2017

<sup>154</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>155</sup> Cofnod y Trafodion, para. 439, 16 Chwefror 2017

**228.** Amlygodd UNSAIN, ym myd gwleidyddol y DU, ni chaiff pleidlais absennol ei hystyried yn bleidlais negyddol, ac y gall fod amryw o resymau pam na fyddai aelodau undebau llafur yn pleidleisio.<sup>156</sup>

## **Effaith Deddf 2016 ar bartneriaeth gymdeithasol a darparu gwasanaethau cyhoeddus**

**229.** Cododd nifer o ymatebwyr bryderon y byddai'r gofyniad o ran y trothwy pleidleisio o 40 y cant yn newid y cydbwysedd rhwng undebau llafur a phartneriaid cymdeithasol eraill, a fyddai'n tansilio'r bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru. O'r herwydd, maent yn gadarn o blaid y ddarpariaeth yn y Bil i ddatgymhwyso'r trothwy yng Nghymru.

**230.** Dywedodd TUC Cymru:

---

“By repealing the new draconian restrictions on [strike] action in devolved public services, the Bill protects the existing balance between employers and unions in the Welsh public sector.”<sup>157</sup>

---

**231.** Yn ôl TUC Cymru, mae'r cydbwysedd hwn yw 'hanfodol' i gyflawni nod Llywodraeth Cymru o sicrhau bod parhad o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.<sup>158</sup>

**232.** Dywedodd y GMB y bydd y trothwyon mympwyol yn Neddf 2016 yn anochel yn niweidio cysylltiadau diwydiannol o fewn y meysydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac eglurodd:

---

“The ability of unions to collectively bargain is supported by the right to organise industrial action. That right also ensures that employers take the views of the workforce seriously and practice constructive industrial relations. The social partnership model operated within Welsh public services is dependent for its efficacy upon an equality of bargaining power between the stakeholders which would be unsettled by the application of the terms of the [2016 Act].”<sup>159</sup>

---

**233.** Roedd pryder cyffredinol y byddai gosod y trothwy yn newid y ffordd y mae undebau llafur yn ymdrin â chysylltiadau diwydiannol, gyda rhai ymatebwyr yn awgrymu yn benodol y gallai arwain at anghydfodau mwy dwys a fyddai'n para am amser hwy.

**234.** Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r ddarpariaeth yn Neddf 2016 arwain at fod yr undebau llafur yn canolbwyntio eu hegri ar gyflawni'r trothwy pleidleisio yn hytrach na datrys anghydfodau. Awgrymodd y rhai sy'n cynrychioli'r undebau llafur hefyd y gall cyflogwyr fod yn llai tueddol i gyd-drafod nes y gwyddys canlyniad pleidlais.

**235.** Er bod Cydffederasiwn y GIG a Chyflogwyr GIG Cymru yn cydnabod ac yn deall y rhesymeg ar gyfer y gofynion trothwy yn Neddf 2016, maent yn codi pryderon y gallai canlyniadau anfwriadol fod iddynt o ran cynnal cysylltiadau diwydiannol:

---

<sup>156</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 14

<sup>157</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>158</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>159</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

---

“The requirement to reach both a 50% turnout and a 40% threshold may lead to trade unions concentrating more on tactical aspects of the management of a dispute e.g. targeting turnout in areas where support for strike action may be higher, rather than working with managers and employers (such as Local Health Boards and Trusts) to reach a resolution.”<sup>160</sup>

---

**236.** Awgrymodd Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru y gallai'r undebau gael eu gorfodi i drin a thrafod gweithredu diwydiannol mewn ffordd wahanol, a chynnal pleidleisiau sy'n canolbwyntio ar leoliadau penodol neu categorïau swyddi allweddol, pan fyddai'r rhain yn fwy tebygol o fodloni'r trothwy. Awgrymodd hefyd y gallai undebau gael eu gorfodi i dreulio mwy o amser, ac i neilltuo rhagor o adnoddau ar chwyddo'r niferoedd a'r gefnogaeth yn hytrach na cheisio setlo anghydfodau gyda'r cyflogwr.<sup>161</sup>

**237.** Dywedodd TUC Cymru:

---

“The increased threshold may also have the effect of prolonging and escalating disputes in Welsh public services as unions take more time ahead of ballots in order to meet the threshold. At the same time, employers will have less of an incentive to move towards a solution and may increasingly choose to wait to see if the additional threshold can be met. The effect will be to polarise the parties involved, making swift and amicable resolution more difficult to achieve.”<sup>162</sup>

---

**238.** Mynegodd GMB farn debyg.<sup>163</sup>

**239.** Nid oedd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'n benodol y ddarpariaeth yn y Bil i ddatgymhwysu'r trothwy cefnogaeth o 40 y cant. Mae'n tynnu sylw at bryderon ynghylch y canlyniadau anfwriadol posibl ar gyfer gwasanaethau addysg:

---

“...there could arise a situation where a relatively small section of the staff (who are members of a single union), in pursuit of a legitimate outcome could adversely affect the education of all the children within the school.

School leaders could be placed in the unenviable position of having to take a decision whether it is safe to keep a school open... [We] wish to make it clear that the effects of any industrial action at a school have complex and far-reaching consequences that may impact upon the educational progress of our young people.”<sup>164</sup>

---

**240.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr:

---

“We understand the rationale behind [the 40%ballot threshold requirement] and what it is seeking to achieve in ensuring that “important public services”

---

<sup>160</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>161</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 05

<sup>162</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>163</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 06

<sup>164</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 17

are maintained without disruption. At the same time, we value social partnership and the need to ensure that all parties remain solution focussed and work together to resolve any disputes which may arise.”<sup>165</sup>

---

**241.** Aeth ymlaen i awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i ddatgymhwyso’r trothwy pleidleisio ychwanegol:

“There is a balance between employers maintaining their duty to provide continuity of service to their local populations and ensuring good industrial relations which in itself, ensures the smooth running of NHS organisations. We suggest that further consideration is given to this matter, to ensure that the outcome is proportionate.”<sup>166</sup>

---

## Goblygiadau ariannol

**242.** Roedd TUC Cymru a Chyddfederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru yn cwestiynu amcangyfrif cost Llywodraeth Cymru o £85,000 ar gyfer datgymhwyso’r gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant.

**243.** Roedd TUC Cymru yn cwestiynu’r arbedion cost a gynhwysir yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth y DU. Roedd yn dadlau fod y trothwy o 40 y cant yn creu perygl o weithredu diwydiannol am gyfnodau hwy, a mwy o darfu ar wasanaethau yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, sy’n golygu y byddai’r trothwy o 40 y cant yn arwain at ragor o gostau i’r cyhoedd yn hytrach nag arbedion. Felly, roedd hefyd yn cwestiynu amcangyfrif Llywodraeth Cymru o’r gost o £85,000 ar gyfer datgymhwyso’r trothwy o 40 y cant.<sup>167</sup>

**244.** Holodd Cyddfederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru sut yr oedd y £85,000 wedi cael ei gyfrifo ar gyfer Cymru, ac awgrymodd y gallai’r ffigwr fod wedi cael ei danbrisio:

“Whilst the level of industrial action within NHS Wales has been low in recent years, when it has occurred and we have had to recover lost activity through overtime and waiting list initiatives, this has resulted in significant costs to the NHS. Whilst we haven’t been able to provide an amount for this, it is our judgement that the costs will be in excess of £85,000 within the NHS alone.”<sup>168</sup>

---

## Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**245.** Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, roedd y gofyniad o ran y trothwy pleidleisio o 40 y cant yn ‘fypwyl’, yn effeithio ar hawliau democrataidd gweithwyr ac yn “wrthgyferbyniad i bartneriaeth gymdeithasol.”<sup>169</sup>

**246.** Dywedodd fod y trothwy wedi’i gynllunio i wneud gweithredu diwydiannol cyfreithlon lawer iawn yn fwy anodd, a oedd yn wrthgynhyrchiol, ac yn berygl o arwain at fathau eraill o brotest a

---

<sup>165</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 18

<sup>166</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 18

<sup>167</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>168</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08

<sup>169</sup> Cofnod y Trafodion, para. 38, 2 Chwefror 2017

fyddai'n parhau am fwy o amser ac a fyddai, mewn gwirionedd, hyd yn oed yn fwy niweidiol i wasanaethau ac i bobl.<sup>170</sup>

**247.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

---

“...if people find that courses of action that are fair and which they have a right to pursue are being closed off to them, then I think that will have perverse and unintended consequences.”

[...]

“Our view is that when you have an adversarial approach built into the way that industrial relations are conducted—and that’s what the UK Government Act does; it makes those relations more adversarial—that that is more likely to lead to poor industrial relations. That is more likely to lead to strikes. We think that the investment we make through the social partnership model, in avoiding those outcomes, is best secured by our Bill, and the costs will be lower, not higher, as a result.”<sup>171</sup>

---

**248.** Wrth roi sylwadau ar y safbwyntiau gwahanol yn y dystiolaeth am y gost a amcangyfrifir ar gyfer datgymhwyso’r trothwy, dywedodd:

---

“...inevitably, when you are dealing with hypothetical costs, everybody is making an estimate of what they think might happen in the absence of concrete experience about it.”<sup>172</sup>

---

## Ein barn

**249.** Nodwn mai bwriad a nodwyd gan Lywodraeth y DU wrth gyflwyno’r gofynion trothwy pleidleisio yn Neddf 2016 yw lleihau gweithredu diwydiannol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus. Mae’n amlwg i ni bod Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dulliau gweithredu gwahanol iawn o ran cysylltiadau diwydiannol, gyda Llywodraeth Cymru yn dewis gweithio mewn partneriaeth ag undebau llafur a chyflogwyr i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn parhau i gael eu darparu â’u gwella. Ateb Llywodraeth y DU i leihau gweithredu diwydiannol yw drwy ei gwneud yn fwy anodd i weithwyr arfer eu hawl gyfreithlon i weithredu. Nid ydym yn credu bod yr ateb hwn yn angenrheidiol nac yn briodol yng Nghymru.

**250.** Rydym yn cwestiynu pam mae Llywodraeth y DU yn credu ei bod yn briodol nac yn deg i ddethol yr undebau llafur ar wahân o ran trothwyon pleidleisio mor llym, pan nad oes trothwyon yn bodoli ar gyfer etholiadau gwleidyddol na refferenda.

**251.** Mae’n amlwg i ni mai craidd unrhyw bartneriaeth lwyddiannus yw cydbwysedd rhwng partneriaid, a chadarnhawyd hyn gan y dystiolaeth a glywyd. Clywsom fod y gofyniad o ran y trothwy pleidleisio ychwanegol o 40 y cant yn Neddf 2016, yn ddi-os, yn tanseilio gallu’r undebau llafur i ymgysylltu â chyflogwyr fel partneriaid cyfartal. Rydym yn cydnabod bod yr hawl i ymgymryd â gweithredu diwydiannol yn elfen bwysig yn yr egwyddor o fargeinio ar y cyd. Heb yr hawl hwn neu yn achos Deddf 2016 pan gaiff yr hawl hon ei llesteirio gan y trothwy pleidleisio ychwanegol, bydd yn

---

<sup>170</sup> Cofnod y Trafodion, para. 152, 2 Chwefror 2017

<sup>171</sup> Cofnod y Trafodion, para. 153-157, 2 Chwefror 2017

<sup>172</sup> Cofnod y Trafodion, para. 101, 9 Mawrth 2017

llawer mwy anodd i'r undebau gyd-drafod ar ran eu haelodau gyda'i gilydd. Nid ydym yn credu bod hyn er y budd gorau i weithio mewn partneriaeth, nac i'r agenda darparu a gwella gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach.

**252.** Mae'r dystiolaeth a gawsom yn awgrymu y gallai ceisio atal gweithredu diwydiannol drwy osod y trothwy pleidleisio ychwanegol newid y ffordd y mae partneriaid yn ystyried cysylltiadau diwydiannol, gydag undebau llafur a chyflogwyr yn pellhau oddi wrth ymgysylltu cadarnhaol i ddatrys anghydfodau. Clywsom am y perygl gwirioneddol y byddai'r trothwy ychwanegol yn arwain at densiynau diwydiannol amlycach, ac am yr effaith anfwriadol o gynyddu tebygolrwydd a hyd unrhyw gyfnodau o weithredu diwydiannol. Byddai gweithredu diwydiannol hwy yn anochel yn arwain at gostau uwch i gyflogwyr a gweithwyr, a byddai'n effeithio ar ddarparu'r gwasanaethau dan sylw.

**253.** O ystyried yr uchod, a'r angen i sicrhau bod y dull partneriaeth gymdeithasol yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru, rydym yn cefnogi adran 1(4) o'r Bil. Rydym yn cydnabod bod y rheoliadau sy'n diffinio 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig', y mae'r gofyniad trothwy pleidleisio o 40 y cant yn berthnasol iddynt, bellach mewn grym yng Nghymru. Mae hyn yn fwy o reswm byth i'r Cynulliad ddeddfu ar y mater hwn cyn gynted â phosibl.

## 07. Gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol

**254.** Ar hyn o bryd, mae cyflogwyr yn cael eu gwahardd rhag defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol drwy reoliad 7 o Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Rheoliadau Busnesau Cyflogi 2003 ('rheoliad 7'). Ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar gynigion i ddirymu'r Rheoliadau hyn. Pe bai'r cynigion hyn yn cael eu rhoi ar waith, a'r Rheoliadau'n cael eu dirymu yng Nghymru, byddai'n galluogi cyflogwyr i ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

**255.** Nid yw'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn gwneud darpariaeth i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol ac, o'r herwydd, ni wahoddodd y Pwyllgor safbwyntiau ar y mater hwn fel rhan o'i alwad gyffredinol am dystiolaeth. Fodd bynnag, yn ei ddatganiad deddfwriaethol ar y Bil, adroddodd yr Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ystyried cyflwyno darpariaeth o'r fath drwy welliant. O ystyried hyn, gofynnodd y Pwyllgor i'r ymatebwyr a roddodd dystiolaeth lafar, am eu barn ar y mater hwn.

### Tystiolaeth gan yr ymatebwyr

**256.** Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn cefnogi parhau â'r gwaharddiad presennol ar y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi gwasanaeth yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol. Er i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru nodi, hyd yma, nad oedd ganddi safbwynt polisi ffurfiol ar y mater hwn, mae'n rhagweld yn glir iawn na fyddai Bwrdd y Gymdeithas yn cefnogi defnyddio gweithwyr asiantaeth yn y modd hwn.<sup>173</sup>

**257.** Y rhesymau a roddwyd gan ymatebwyr a oedd yn cefnogi parhau â'r gwaharddiad oedd y byddai defnyddio gweithwyr asiantaeth yn tanseilio hawliau gweithwyr i weithredu'n ddiwydiannol; yn effeithio ar gysylltiadau diwydiannol ac o bosibl yn dwysáu anghydfodau; ac yn effeithio ar y bartneriaeth gymdeithasol. Cododd rhai ymatebwyr bryder y byddai goblygiadau o ran iechyd a diogelwch i ddefnyddio gweithwyr asiantaeth yn y modd hwn, ac mewn gwirionedd yn fwy cyffredinol, yn enwedig mewn lleoliadau iechyd ac addysg.

**258.** Croesawodd TUC Cymru fwriad Llywodraeth Cymru i barhau â'r gwaharddiad cyfredol:

“The proposed change to regulation 7 of the UK Conduct of Employment Agencies and Employment Businesses Regulations 2003, while not part of the UK Trade Union Act itself, is nonetheless a significant part of the same agenda with the same detrimental impact on Welsh social partnership arrangements in the delivery of devolved public services in Wales.”<sup>174</sup>

**259.** Nododd hefyd fod Sefydliad Llafur Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig wedi codi pryderon arbennig ynghylch effaith diddymu'r rheoliadau ar y rhyddid i ymgysylltu, ac ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig.<sup>175</sup>

**260.** Pwysleisiodd y Coleg Nyrsio Brenhinol fod y dull partneriaeth gymdeithasol yn cael ei atgyfnerthu gan weithwyr yn gorfod troi at weithredu diwydiannol fel y dewis olaf. Mae'n mynegi

<sup>173</sup> Cofnod y Trafodion, para. 310, 16 Chwefror 2017

<sup>174</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>175</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03



pryder y byddai defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn newid sail hanesyddol a chyfreithiol anghydfodau diwydiannol yn uniongyrchol, ac ni fyddai sefyllfa bod cyflogwr yn ceisio o ddifrif i ddatrys anghydfod yn ei weithlu yn bod bellach.<sup>176</sup>

**261.** Credai ATL Cymru y byddai dirymu rheoliad 7 yn tansellio hawliau gweision cyhoeddus gweithgar y gallai eu swyddi fod o dan fygythiad gan yr amgylchiadau heriol y mae ysgolion a cholegau ynddynt. Cododd bryder y byddai prifathrawon a phenaethiaid yn cael eu rhoi o dan bwysau i gadw ysgolion yn agored mewn cyfnodau o weithredu diwydiannol, er gwaetha'r risg i ddiogelwch plant, a bod tebygolrwydd cryf y byddai'n anodd iawn cynnal ansawdd y gwasanaeth cyhoeddus.<sup>177</sup>

**262.** Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd TUC Cymru bod gweithwyr asiantaeth a ddefnyddir i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn aml yn anghyfarwydd â gweithdrefnau a ddefnyddir mewn gweithleoedd, ac mae hynny'n codi pryderon ynghylch diogelwch ac ansawdd gwasanaethau.<sup>178</sup> Mynegodd y Coleg Nyrsio Brenhinol bryderon ehangach am y defnydd o staff asiantaeth o fewn y GIG yng Nghymru, yn enwedig ym meysydd llywodraethu clinigol a pharhad gofal.<sup>179</sup>

**263.** Yn dilyn y mater a nodir uchod, mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau yn hyn o beth, gan gynnwys y Coleg Nyrsio Brenhinol, BMA Cymru a TUC Cymru yn tynnu sylw at y ffaith bod trefniadau wedi'u sefydlu gyda'r undebau llafur i sicrhau bod gwasanaeth craidd yn cael ei gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol. Roedd consensws cyffredinol bod y rhain yn gweithredu'n dda.

**264.** Wrth roi sylwadau ar hyn, nododd BMA Cymru:

---

“...there are already safeguards which exist to protect certain essential services – e.g. agreements by employers, such as local authorities, regarding services which are regarded as “life and limb” ... We consider such arrangements already offer appropriate protection for the public without undermining the general right of public sector workers, including doctors, to strike.”<sup>180</sup>

---

**265.** Cafwyd barn gymysg gan yr ymatebwyr ynghylch a ddylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol i wireddu ei bwriad i barhau â'r gwaharddiad presennol.

**266.** Dywedodd TUC Cymru fod gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn fater o egwyddor sylfaenol ac, fel y cyfryw, roedd yn galw'n benodol am i'r Bil gael ei ddiwygio i fynd i'r afael â'r mater hwn.<sup>181</sup> Roedd safbwynt y Coleg Nyrsio Brenhinol yn fwy gofalus a dywedodd, er bod defnyddio gweithwyr asiantaeth yn fater pwysig o egwyddor sy'n haeddu trafodaeth a chraffu priodol, y dylid defnyddio deddfwriaeth sylfaenol fel y dewis olaf.<sup>182</sup>

---

<sup>176</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01A

<sup>177</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 09

<sup>178</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>179</sup> Cofnod y Trafodion, para. 443, 16 Chwefror 2017

<sup>180</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 04

<sup>181</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 03

<sup>182</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 01A

**267.** Dywedodd BMA Cymru y byddai'n cefnogi, naill ai defnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth, ond ei fod yn llai cefnogol i ddefnyddio'r Fframwaith Caffael Gweithwyr Asiantaeth, gan na fyddai hwnnw'n cynnwys staff clinigol sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru.<sup>183</sup>

**268.** Yn eu hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth, mynegodd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyflogwyr GIG Cymru fod yn well ganddynt ddefnyddio canllawiau neu gyfarwyddyd Gweinidogol i sicrhau bod y gwaharddiad yn parhau.<sup>184</sup> Fodd bynnag, wedi hynny, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, maent yn dweud y byddent yn cefnogi diwygio'r Bil.<sup>185</sup>

### Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet

**269.** Pan holwyd pam nad oedd Ysgrifennydd y Cabinet wedi gohirio cyflwyno'r Bil nes ei fod wedi gwneud penderfyniad terfynol ar y mater hwn, awgrymodd fod problemau'n ymwneud ag amseru, a'r ansicrwydd a grëwyd o beidio â bod yn glir ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth y DU ei hun yn bwriadu'i wneud yn hyn o beth.<sup>186</sup>

**270.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chrynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gwaharddiad parhaus ar y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol ar 3 Mawrth 2017.

**271.** Wedi hynny, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n trafod y mater gyda'r Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar 9 Mawrth.

**272.** Wrth roi sylwadau ynghylch a oedd gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i alluogi gwaharddiad parhaus ar weithwyr asiantaeth rhag cyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, dywedodd ei swyddog:

“Existing powers that might exist for direction and so on, if that approach were taken, might lead to a fairly complicated set of arrangements with different applications to different employers, which of itself might create a little bit more of a complicated position that's difficult to understand. So, whilst there may be room within existing legislation, there is some argument, at least, for using a single piece of legislation in order to give a clear picture of the expectations that there would be.”<sup>187</sup>

**273.** Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet sut y mae'n credu y byddai caniatáu i weithwyr asiantaeth gyflenwi gwasanaethau yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn effeithio ar y model partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru:

“Anything that erodes the position of one side in that social partnership and that tilts the balance in favour of one partner against another, I think, undermines that fundamental principle of partnership. If the agency workers prohibition were to be overturned by a UK Government, then I think it would just make those relationships more difficult, and it would introduce resentment, potentially, between agency workers and full-time workers who are pursuing an

<sup>183</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 04

<sup>184</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, TUB 08A

<sup>185</sup> Cofnod y Trafodion, para. 132-133, 1 Mawrth 2017

<sup>186</sup> Cofnod y Trafodion, para. 97, 2 Chwefror 2017

<sup>187</sup> Cofnod y Trafodion, para. 121, 9 Mawrth 2017

industrial dispute with their employers. I just see it as creating a new series of potential areas of conflict that counteract the way we would like to do things here.”<sup>188</sup>

---

**274.** Ar 27 Mawrth 2017, ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet i roi gwybod i'r Pwyllgor y byddai'n cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 y Bil i gadw'r sefyllfa fel y mae, sy'n gwahardd defnyddio gweithwyr asiantaeth i weithio mewn cyfnodau o streicio o ran awdurdodau Cymreig datganoledig.<sup>189</sup>

### Ein barn

**275.** Nid yw'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn gwneud darpariaeth i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i weithio yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol, ac felly, nid oeddem wedi gwahodd safbwyntiau ar y mater hwn fel rhan o'n galwad gyffredinol am dystiolaeth. Fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ystyried diwygio'r Bil i gynnwys darpariaeth o'r fath, gofynnwyd i ymatebwyr a roddodd dystiolaeth lafar am eu barn ar y mater hwn.

**276.** Mae'r bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru wedi cael ei datblygu dros nifer o flynyddoedd, mae'n cael ei gwerthfawrogi ac mae'n effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gweithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar gydbwysedd rhwng partneriaid. Rydym wedi clywed y byddai codi'r gwaharddiad cyfredol ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol yn cael effaith debyg i'r gofyniad trothwy pleidleisio ychwanegol o 40 y cant. Bydd yn tanseilio gallu'r undebau llafur i ymgysylltu fel partneriaid cyfartal, a fydd, yn ei dro, yn tanseilio'r dull partneriaeth gymdeithasol. O'r herwydd, rydym yn credu ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwaharddiad yn parhau yng Nghymru.

**277.** Nodwn y safbwyntiau gwahanol ymysg yr ymatebwyr ynghylch a ddylid darparu ar gyfer y gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol mewn deddfwriaeth sylfaenol ac, yn benodol, yn y Bil hwn. Nodwn hefyd, y gallai fod yn bosibl i Lywodraeth Cymru gyflawni'r bwriad hwn drwy ddefnyddio pwerau mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. O ystyried bod hwn yn fater polisi mor bwysig, credwn y dylid darparu ar ei gyfer drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Credwn y byddai hyn yn cryfhau'r Bil, ac y byddai'n gwbl gyson â'i ddiben penodedig a'r effaith a fwriadwyd ar ei gyfer.

**278.** Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddod â gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys darpariaeth yn y Bil i wahardd y defnydd o weithwyr asiantaeth i gyflenwi yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol sy'n cynnwys awdurdodau Cymreig datganoledig.

---

<sup>188</sup> Cofnod y Trafodion, para. 119, 9 Mawrth 2017

<sup>189</sup> [Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau](#), dyddiedig 27 Mawrth 2017